

**From:** [PMO](#)  
**To:** [Wylfa Newydd](#)  
**Subject:** RE: IACC Deadline 2 Submission : Local Impact Report - WNDA (email 25)  
**Date:** 04 December 2018 20:14:18  
**Attachments:** [image001.png](#)  
[image002.png](#)  
[image003.png](#)  
[Wylfa Newydd Development Area.pdf](#)  
[Wylfa Newydd Development Area Annex.zip](#)

---

**Please note, a number of emails will follow in relation to the LIR – we will confirm the final email.**

Pnawn Da/ *Good afternoon,*

Gweler ynglwm cynrychiolaeth CSYM mewn perthynas â'r uchod / *Please see IACC's representation in respect of the above.*

Bydd fersiwn Gymraeg yn cael ei ddarparu cyn gynted a phosib / *A Welsh version of the submission will be provided in due course.*

Cofion/ *Regards,*

Manon

Swyddfa Rhaglen Ynys Ynni /  
Energy Island Programme Office  
01248 752435 / 2431  
[PMO@ynymon.gov.uk](mailto:PMO@ynymon.gov.uk)



[www.ynsynimon.co.uk](http://www.ynsynimon.co.uk) / [www.angleseyenergyisland.co.uk](http://www.angleseyenergyisland.co.uk)



Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg  
Please write to me in Welsh or English

[Dilynwch ni ar Twitter](#) / [Darganfyddwch ni ar Facebook](#)

[Follow us on Twitter](#) / [Find us on Facebook](#)

Mae'r neges e-bost hon a'r ffeiliau a drosglwyddyd ynglwm gyda hi yn gyfrinachol ac efallai bod breintiau cyfreithiol ynglwm wrthynt. Yr unig berson sydd 'r hawl i'w darllen, eu copio a'u defnyddio yw'r person y bwriadwyd eu gyrru nhw ato. Petaeth wedi derbyn y neges e-bost hon mewn camgymeriad yna, os gwellch yn dda, rhowch wybod i'r Rheolwr Systemau yn syth gan ddefnyddio'r manylion isod, a pheidiwch datgelu na chasio'r cynnwys i neb arall.

Mae cynnwys y neges e-bost hon yn cynrychioli sylwadau'r gyrrwr yn unig ac nid o angenrheidrwydd yn cynrychioli sylwadau Cyngor Sir Ynys Mon. Mae Cyngor Sir

Ynys Mon yn cadw a diogelu ei hawliau i fonitro yr holl negeseuon e-bost trwy ei rwydweithiau mewnol ac allanol.

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.

This email and any files transmitted with it are confidential and may be legally privileged. They may be read copied and used only by the intended recipient. If you have received this email in error please immediately notify the system manager using the details below, and do not disclose or copy its contents to any other person.

The contents of this email represent the views of the sender only and do not necessarily represent the views of Isle of Anglesey County Council. Isle of Anglesey County Council reserves the right to monitor all email communications through its internal and external networks.

You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.

---

This email has been scanned by the Symantec Email Security.cloud service.  
For more information please visit <http://www.symanteccloud.com>

---



## YNYS MÔN: NAWS ARBENNIG

Hydref 2018

Gyda rhagair gan [enw] ac wedi'i gymeradwyo gan  
Cyngor / tîm gweithredol

# Cynnwys

2	Cyd-destun
3	Rhagair
5	1. Rhagarweiniad - Ynys Môn: Lle Unigryw ac Arbennig
10	2. Gwarchod Naws Arbennig: Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ar Ynys Môn
11	3. Diffinio Naws Arbennig ac Unigryw Ynys Môn
14	4. Themâu Cyffredin
14	4.1 Yr iaith Gymraeg
16	4.2 Cymunedau Cryf
17	4.3 Y Tirlun
23	4.4 Yr Amgylchedd Naturiol
25	4.5 Gwledigrwydd, Heddwch a Thangnefedd
27	4.6 Yr Arfordir
30	4.7 Hanes a Threftadaeth
35	4.8 Gweithgareddau Awyr Agored
37	5. Edrych Tua'r Dyfodol
39	6. Casgliad
41	ATODIAD A - Asesiad Lles Ynys Môn 2017
49	ATODIAD B - Ardaloedd Cymeriad Tirlun
54	ATODIAD C - Trawsgrifiad o Raglen BBC Radio 4

## Cyd-destun

---

Paratowyd yr adroddiad hwn i oleuo ystyriaeth Cyngor Sir Ynys Môn (y "Cyngor") o geisiadau gan gwmni Horizon Nuclear Power Limited a National Grid Electricity Transmission plc am Orchmyntion Caniatâd Datblygu ("DCO") ar gyfer cynigion i ddatblygu ar Ynys Môn. Yn benodol, fe'i paratowyd i oleuo ystyriaeth o effeithiau tebygol y cynigion DCO hynny ar les preswylwyr Ynys Môn ac ymwelwyr i'r Ynys.

Fel rhan o'r broses DCO, bydd y Cyngor yn cyflwyno Adroddiadau Effaith Leol i'r Arolygiaeth Gynllunio i gynorthwyo ei hystyriaeth o'r ceisiadau DCO. Bydd yr Adroddiadau Effaith Leol hynny'n rhoi asesiad technegol manwl o effeithiau tebygol y cynlluniau ar yr Ynys. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio dull ansoddol o drafod naws arbennig yr Ynys i oleuo'r asesiadau hynny, ac eraill. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r hyn sy'n gwneud Ynys Môn yn lle mor unigryw ac arbennig i fyw, gweithio ac ymweld â hi ym marn:-

- ein cymunedau (a fynegir drwy'r asesiadau lles cymunedol, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a gafodd eu cwblhau yn 2017);
- ein harweinwyr dinesig; a
- ymwelwyr i'r Ynys (drwy amrywiol arolygon ymwelwyr).

Paratowyd rhagair i'r adroddiad hwn gan [enw a swydd]. Mae drafft o'r adroddiad hwn wedi'i roi gerbron [y Cyngor Llawn] ac wedi'i gadarnhau fel adroddiad cywir a chynrychiadol ar naws arbennig yr Ynys ar sail y dystiolaeth oedd ar gael i aelodau etholedig ac felly cyflwynir hynny yn yr adroddiad hwn.

# Rhagair



Llinos Medi

Arweinydd Cyngor  
Sir Ynys Môn

Mae Ynys Môn yn wirioneddol unigryw. Mae hefyd yn lle arbennig iawn i fyw, gweithio ac ymweld â fo.

Yn gyntaf ac yn bwysicaf oll, ynys ydyw. Mae ganddi ffiniau naturiol cryf, clir a phendant – ac mae'r ffiniau hynny'n diffinio ac uno canrifoedd o hanes, cymuned, diwylliant a thraddodiad unigryw. Mae'n Ynys sy'n gwneud i bobl ymfalchiōn ddwfn ynddi ac o fod yn falch o berthyn iddi. Daw ymwelwyr hefyd yma fel rhywle sy'n golygu llawer iawn iddynt – rhywle 'draw o'r tir mawr' – mae'n wahanol mewn ffyrdd sy'n gallu bod yn anodd eu diffinio.

Mae ein hiaith Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth yn eithriadol bwysig. Gall mwy na thri chwarter ein plant a thros hanner yr oedolion sy'n byw ar Ynys Môn siarad Cymraeg. Mae'r Ynys yn parhau i fod yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn elfen naturiol o fywyd pob dydd, o wead tynn y gymdeithas ac o les ar yr Ynys. Felly mae diogelu a chryfhau'r iaith yn flaenoriaeth hynod bwysig.

Ynghyd â'r iaith, diwylliant ac ymdeimlad cryf iawn o berthyn i gymuned, mae ein hamgylchedd naturiol yn ddi-ail. Mae ardaloedd yn cynnig golygfeydd cefn gwlad ac arfordirol godidog, yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol sy'n amgylch-nu'r rhan fwyaf o'r arfordir, ynghyd â milltir ar ôl milltir o Arfordir Treftadaeth, yn cynnal cynefinoedd bywyd gwylt sydd o arwyddocad cenedlaethol a rhyngwladol. Crëwyd tirluniau gwledig digynnwrf a llonydd gan ganrifoedd o amaethu – ar ôl i deuluoedd ffermio sydd wedi gwneud y mwyaf o adnoddau naturiol yr Ynys drin yr un tir ers cenedlaethau lawer.

Daw'r cwbl at ei gilydd i greu lle arbennig iawn i fyw, gweithio ac ymweld â fo lle mae lles ac ansawdd bywyd i'w mwynhau ar eu gorau. O ganlyniad, daeth Ynys Môn yn gyntaf yng Nghymru'n ddiweddar fel rhywle i fyw 'bywyd bodlon' mewn Arolwg Poblogaeth Blynnyddol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a hefyd fel un o'r mannau 'hapusaf' a 'mwyaf diogel' yng Nghymru.

O ystyried yr uchod, mae gan yr Ynys a'i chymunedau lawer iawn yn y fantol a llawer i'w golli os na chaiff newid ei reoli'n iawn. Felly, er yn croesawu buddsoddiad, ni all datblygu ar yr Ynys ddod am unrhyw bris yn y byd.

Mae ein Cynllun Corfforaethol am y cyfnod 2017 – 2022 yn cydnabod hyn a'i brif uchelgais yw gweithio 'tuag at Ynys Môn iach, ffynianus a llewyrchus'. Drwy ein Cynllun Corfforaethol rydyn ni'n gweithio'n galed 'i greu'r amodau lle gall pawb gyflawni eu potensial hirdymor' a lle 'gall cymunedau ymdopi'n effeithiol â newid a datblygu ond gwarchod y pethau sy'n unigryw ac arbennig am yr Ynys ar yr un pryd'.

Ond mae Ynys Môn hefyd yn edrych tuag allan a phob amser yn barod i achub ar bob cyfle i wella rhagolygon economaidd ei thrigolion a helpu i gadw ein pobl ifanc yn byw a gweithio'n lleol yn eu cymunedau. Am flynyddoedd lawer mae Ynys Môn wedi bod yn adnabyddus fel 'Gwlad y Medra', yn agored i newid a pharod i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a ddaeth ei ffordd.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio'n gefnogol a rhagweithiol mewn partneriaeth ag unrhyw ddatblygwr sy'n gallu helpu i ddarparu'r 'ynys iach, ffyniannus a llewyrchus' y mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn ceisio ei chreu. Wrth wneud hynny, fod bynnag, rhaid derbyn y rhagdybiaeth bod parch haeddiannol yn cael ei ddangos at gymeriad unigryw a naws hynod arbennig yr Ynys.

# I. Rhagarweiniad - Ynys Môn: Lle Unigryw ac Arbennig



*“Mae'r faith y bod Môn yn ynys yn ei gwneud yn arbennig. Mae ei hanes yn hanes ynys, hanes y mor o'i chwmpas a'r dylanwad ar ei drigolion drwy y canriffoedd. Mae ei harddwch naturiol, ei threftadaeth a'i diwylliant yn werthfawr. Cymunedau ble mae yr iaith Gymraeg yn byrlymusrwyd. Cymunedau morwrol ac amaethyddol gyda hanes hir a bywiog”.*

(Y Cyng. Margaret M Roberts, Ward Lligwy)



*“Un o ddim ond dwy Sir yn y byd i gyd lle mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn defnyddio'r Gymraeg”.*

(Y Cyng. Vaughan Hughes, Ward Lligwy)



- 1.1 Mae Ynys Môn, neu Sir Fôn i rai, yn rhyngwladol bwysig am ei daeareg, archaeoleg, hanes, bywyd gwylt ac am ei thirlun byw, diwylliannol. Trysorir yr Ynys am y rôl sylweddol a chwaraeodd ym mywyd ysbrydol, gwleidyddol a diwydiannol Cymru drwy gydol ei hanes – o'r cyfnod cynhanes hyd heddiw.
- 1.2 Yn gyntaf a phwysicaf oll – Ynys yw Sir Fôn – Ynys Môn. Mae ganddi ffiniau naturiol cryf, clir a diymwad – a'r ffiniau hynny'n diffinio ac uno canriffoedd o hanes, cymdeithas, diwylliant a thraddodiad hynod ac unigryw. Mae'n Ynys sy'n gwneud i'w phobl ymfalchi'o'n ddwfn ynddi ac o fod yn falch o berthyn iddi. Daw ymwelwyr hefyd yma i ymweld â rhywle sy'n golygu llawer iawn iddynt – lle 'draw o'r tir mawr' – mae'n wahanol mewn ffyrdd sy'n gallu bod yn anodd eu diffinio.
- 1.3 Ar wahân i'r ffaith amlwg bod daearyddiaeth Ynys Môn wedi'i gwahanu o dir mawr Cymru, mae'r bobl sy'n byw yma neu sy'n ymweld yn ystyried bod ganddi harddwch a thangnreffed arbennig fel nad oes unman arall tebyg iddi yn y Deyrnas Unedig. Am gannoedd o flynyddoedd, mae'r hynodedd yma wedi denu ac ysbrydoli artistiaid, cerddorion ac awduron lu. Daeth rhai ohonynt, fel Syr Kyffin Williams KBE, RA a Charles Frederick Tunnicliffe, OBE, RA yn fyd enwog gan dreulio eu bywydau gwaith yn byw a pheintio ar Ynys Môn. Mae'r bobl hyn ac eraill tebyg iddynt wedi ysbrydoli cenedlaethau eraill a ddaeth ar eu hôl. Yn ôl ei hunangofiant yn 2016 "Fingers in the Sparkle Jar", cafodd y cyflwynydd teledu Chris Packham, er enghraifft, ei dylanwadu pan oedd yn blentyn gan waith arlunio Tunnicliffe ar Ynys Môn a ymddangosodd unwaith ar y Brooke Bond Picture Cards, a'i ysbrydoli i ddilyn gyrra fel naturiaethwr. Mae amryw o bobl eraill wedi gwneud cyfraniad aruthrol i gymuned greadigol yr Ynys sy'n parhau i fod yn fywiog iawn hyd heddiw. Mae cerdd Syr John Betjeman, "A Bay in Anglesey", yn crynhoi rhai o nodweddion mwyaf unigryw ac arbennig yr Ynys:

*The sleepy sound of a tea-time tide  
Slaps at the rocks the sun has dried*

*Too lazy, almost, to sink and lift  
Round low peninsulas pink with thrift.*

*The water, enlarging shells and sand,  
Grows greener emerald out from land*

*And brown over shadowy shelves below  
The waving forests of seaweed show.*

*Here at my feet in the short cliff grass  
Are shells, dried bladderwrack, broken glass*

*Pale blue squills and yellow rock roses.  
The next low ridge that we climb discloses*

*One more field for the sheep to graze  
While, scarcely seen on this hottest of days,*

*Far to the eastward over there,  
Snowdon rises in pearl-grey air.*

*Multiple lark-song, whispering bents,  
The thomy, turf-y and salty scents*

*And filling in, brimming in sparkling and free  
The sweet susurration of incoming sea.*

<sup>1</sup> Cynodeb o  
STEAM (Effaith  
Twristiaeth ar yr  
Economi Leol)  
2017, Cyngor Sir  
Ynys Môn.

1.4 Mae tirlun pantiog a phonciog Ynys Môn, ei thraethau a golygfeydd arfordirol ysbennydd a'i hawyr dywyll, yn gwneud yr Ynys yn gyrchfan boblogaidd iawn i ymwelwyr. Mae sawl haen i'r Ynys, felly, nid yn unig y mae'n hafan i gerddwyr, gwylwyr adar a rhai sy'n frwd am hanes a chwaraeon dŵr; mae hefyd yn denu pobl sy'n llawenhau yn y cyfle i ymlacio yng nghanol llonyddwch a thawelwch y lle. Mae ei chymeriad naturiol, diwylliannol a hanesyddol yn ategu diwydiant twristiaeth sy'n parhau i dyfu ac sydd heddiw'n werth dros £300 miliwn yn flynyddol i economi'r Ynys<sup>1</sup>.

1.5 O'i chychwyn amaethyddol traddodiadol, a'i dynodiad fel 'Môn Mam Cymru' yn ystod y Canol Oesoedd – roedd ei chaeau ffrwythlon yn creu'r 'winllan deg' a allai dyfu digon o fwyd i fwydo Cymru gyfan. Mae Môn Mam Cymru i'w weld ar arwyddion yn croesawu pobl i'r Ynys (Ffig 1) ac yn rhan annatod o hunaniaeth yr Ynys.



Ffigwr 1: Arwydd Môn Mam Cymru ger Pont y Borth.

1.6 Mae amaethyddiaeth yn parhau i chwarae rhan bwysig iawn yn economi a ffordd o fwyr Ynys. Hyd heddiw mae gan Ynys Môn enw am fod yn 'ysgubor ŷd' i Gymru gyda nifer o gynhyrchwyr bwyd adnabyddus ac enillglod yn dewis lleoli eu hunain yno. Dylai taith gastronomeg o gwmpas yr Ynys gynnwys Wystrys a Chregyn Gleision Menai, gyda phinsiad o Halen Môn wrth gwrs (enillodd yr halen statws Enw Tarddad Gwarchodedig yr UE, sy'n ei wneud yr un mor bwysig a rhanbarthol nodedig â Champagne, Prosciutto di Parma neu basteiod o Gernyw) a bara ffres wedi'i wneud o flawd cyflawn Melin Llynnon ac wedi'i olchi i lawr gyda gwin lleol Tŷ Croes. Efallai mai'r cynyrrch mwyaf nodedig yw Teisen Berffro, bisgedi traddodiadol wedi eu henwi ar ôl y llys brenhinol yn Aberffraw. Gellir olrhain tarddiad Teisen Berffro'n ôl i'r 13eg ganrif mae'n debyg, wedi'i chysylltu i lwybr y pererinion i gyrraedd Santiago de Compostela ac eglwys Romanesque, a adeiladwyd yn Aberffraw yn ôl y sôn, ac yn adlewyrchu eglwysi tebyg a godwyd ar hyd llwybr pererindod Camino de Santiago.

1.7 Prin nad oes yr un cildraeth na chrug ar Ynys Môn heb hanes yn perthyn iddynt. Mae wedi bod yn dirlun cysegredig am filoedd o flynyddoedd – ynys sanctaidd siamaniaid cynhanesyddol, y Derwyddon a seintiau Cristnogol cynnar. Bu'n orseddfa i dywysogion rhyfelgar a'u gwragedd dewr, i grochan o wrachod, rhywle oedd yn ddraenen yn ystlys Rhufain, lle hyrddiwyd llongau anferth ar ei chreigiau ac a fu'n orweddfan i gawresi a hen dduwiau Ynysoedd Prydain. Cofir y rhain oll yn enwau caeau, crugiau, llynnoedd, llennyrch ac afonydd yr Ynys. Un o'r mwyaf nodedig yw Bryn Celli Ddu – bedrod neu garnedd o'r cyfnod Neolitig hwyd ac enghraifft brin o un sydd wedi cael ei gosod (fel Stonehenge) i gydamseru â chodiad yr haul ar ddiwrnod hirddydd haf (Ffig 2).



Ffigwr 2: Bryn Celli Ddu

1.8 Er gwaethaf, ond hefyd yn rhannol oherwydd yr holl sydd wedi mynd a dod, ymosod, gadael neu aros, mae Ynys Môn wedi llwyddo i gadw ei thawelwch a'i naws arbennig – ei rhin fel Ynys – ei golau arbennig a'i machludoedd trawiadol. Erys yn gartref i lawer iawn o deuluoedd brodorol Cymraeg eu hiaith (rhai ohonynt yn gallu olrhain eu hachau a'u hanes yn ôl am genedlaethau ac ar draws canrifoedd lawer ar yr Ynys), a hefyd i newydd ddyfodiaid sy'n syrthio mewn cariad â'r Ynys a byth yn gadael.

<sup>2</sup> *Liz Riley Jones, 2015. Hiraeth. A Mark – Marc. Troubador Publishing, 28.01.15. ISBN: 9781784621315*

1.9 Un o'r pethau sy'n ychwanegu at ei hynodedd yw ei phoblogaeth leol wydn a chryf sy'n barod i achub ar y rhan fwyaf o'r cyfleoedd a ddaw eu ffordd. Yn y 18fed ganrif roedd yn gartref i'r gwaith copor mwyaf yn y byd (Ffig 3). Mae porthladd Caergybi (Ffig 4) wedi gweld dros 200 mlynedd o fasnachu rhwngwladol. O genhedlaeth a fu'n toddi alwminiwm o Jamaica ac Awstralia (yn un o ffwrneisiau mwyndoddi alwminiwm mwy'a'r Deyrnas Unedig), i gofleiddio technoleg newydd pŵer niwclear Magnox yn Wylfa ar ddiwedd y 60au / dechrau'r 70au, mae Ynys Môn wastad wedi cael ei hadnabod a'i chyfeirio ati fel 'Gwlad y Medra'. I ddyfynnu o nofel 'Hiraeth'<sup>2</sup> Liz Riley Jones (2015), (un o dair nofel wedi eu hysbrydoli gan hen straeon y Mabinogi, lle mae'r prif gymeriad yn cael ei gymhell i dreulio amser ymhliith y gymuned Gymraeg ei hiaith ar Ynys Môn):-

"Alun held his glass high. "Gwlad y Medra," he called out, and his compatriots returned the toast with gusto.

"What does that mean?" Liz asked, intrigued.

"It's a toast to our homeland, to Ynys Môn. There's a saying about the people of the Island: that if ever asked, the answer is always Medra – I can".

"So the translation is – 'The Land of I Can'?"

"Yes, I suppose it is" Ceri agreed".



Ffigwr 3: Mynydd Parys



**Ffigwr 4:** Porthladd Caergybi.

## 2. Gwarchod Naws Arbennig: Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ar Ynys Môn

2.1 Mae naws arbennig rhywle'n n hen gysyniad. Fe'i diffiniwyd mewn nifer o wahanol ffyrdd a gall olygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Mae pob un, fodd bynnag, yn atseiniôd â'n barn ni am ein hynys. I rai rhywbeth ffisegol yn bennaf ydyw – daearyddiaeth ac amgylchedd naturiol ac adeiledig rhywle. I eraill, mae'n fwy o argraff, o ganfyddiad, o emosiwn a theimlad lle – yn hytrach na'n rhywbeth 'ynghlwm wrth' y lle ei hun.

2.2 Dros y blynnyddoedd daeth 'naws arbennig lle' ac 'ymdeimlad o hunaniaeth' yn gydgyfnewidiol, gyda lleoliadau sydd ag ymdeimlad o naws arbennig ond hefyd ymdeimlad o hunaniaeth gref – un a deimlir yn gryf gan drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Heb os mae Ynys Môn a'i phobl yn teimlo'r ymdeimlad cryf a chyffredin hwnnw o hunaniaeth sy'n mynd yn ôl ganrifoedd – wedi'i atgyfnerthu ymhellach mewn sawl cymuned gan y defnydd parhaus a blaenllaw o iaith gyffredin – y Gymraeg.

2.3 Mae naws arbennig rhywle hefyd wedi'i gysylltu'n agos i les pobl. Yn eu llyfr (2008) 'Sense of Place - Health and Quality of Life', mae Lily DeMiglio ac Alison Williams (mewn pennod ar 'A Sense of Place: A Sense of Wellbeing'), yn cydnabod bod rhai llefydd hefyd yn rhoi ymdeimlad anniffiniadwy o les...y byddwn eisiau dychwelyd ato dro ar ôl tro. Dangoswyd hefyd bod naws arbennig lle'n dylanwadu ar iechyd emosiynol a chorfforol. Yn fwy na hynny, nid rhywbeth i'r unigolyn yn unig ydyw ond rhywbeth y gellir ei brofi a'i rannu gan grwpiau. Hefyd, nid yw'n rhywbeth a brofir gan drigolion rhywle ond hefyd gan ymwelwyr i ardal. Mae cysylltiad clir a chytunedig rhwng diogelu lle a diogelu lles.

2.4 Mae diogelu 'lle' a lles cenedlaethau'r dyfodol yn un o'r prif themâu sy'n llifo drwy bolisiâu a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Yn amlwg felly, mae'r cysylltiad rhwng lle a naws arbennig lle, Ynys Môn yn yr achos hwn, a'i warchod a'i ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn mynd law yn llaw â chwrrdd â nodau ac amcanion lles Llywodraeth Cymru. Mae swyddfa'r Comisiynydd Lles wedi cyhoeddi fframwaith ar gyfer asesu cynigion mawr yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae gweddill y papur hwn yn tynnu sylw at rai o'r prif ffactorau sy'n cael eu cydnabod i fod yn cyfrannu at gymeriad unigryw a naws arbennig iawn Ynys Môn, yn enwedig oherwydd eu bod wedi eu cysylltu efallai i les y cenedlaethau sydd i ddod.

### 3. Diffinio Naws Arbennig ac Unigryw Ynys Môn


<sup>3</sup><http://www.ynys-mon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/polisi-cynllunio/gorsaf-niwcLEAR-yn-wylfa-canllawiau-cynllunio-atodol/archif-gorsaf-niwcLEAR-newydd-yn-wylfa-canllawiau-cynllunio-atodol?redirect=false>

3.1 Mae Papurau Pwnc ategol i'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Wylfa Newydd (2018)<sup>3</sup> yn rhoi trosolwg technegol a meintiol manwl ac yn diffinio llawer o'r nodweddion pwysig sy'n gymaint o gaffaeliad i, ac sy'n cyfrannu at naws arbennig Ynys Môn.

3.2 Ynghyd â'r sylfaen dechnegol honno mae'r adroddiad hefyd yn ystyried beth, ym marn cymuned yr Ynys, sy'n gwneud Ynys Môn:-

- (i) yn lle arbennig i fyw; ac
- (ii) sy'n cyfrannu fwyaf at yr ymdeimlad o les ac ansawdd bywyd ar yr Ynys.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol (Bwrdd Ar y Cyd rhwng Gwynedd a Môn) a rhaid iddo baratoi a chyhoeddi Cynllun Lles Lleol. Rhaid i'r Bwrdd 'ymgynghori'n eang wrth baratoi'r cynllun' ac mae'r ymarfer hwn, a gyflawnwyd yn 2017, wedi ildio swmp o'r wybodaeth ddiweddaraf, safbwytiau cyfredol a negeseuon pwysig gan y gymuned (rhoddir crynodeb isod - manylion yn Atodiad A).



#### BETH SYDD YN BRAF AM FYW YN EICH ARDAL CHI?

- Yr amgylchedd naturiol gan gynnwys y traethau
- Ysbryd cymunedol a chymdogion da
- Y distawrwydd/ llonyddwch
- Cyfleusterau lleol
- Lefelau isel o drosedd a theimlo'n ddiogel

#### BETH SY'N HYBU EICH LLESIANT AC YN CYFRANNU AT ANSAWDD BYWYD YN EICH ARDAL?

- Amgylchedd naturiol
- Ysbryd cymunedol
- Gweithgareddau awyr agored
- Teulu/ Ffrindiau/ Cymdogion
- Distawrwydd/ llonyddwch

3.3 Hefyd, o ystyried pwysigrwydd y naws arbennig i ymwelwyr, mae canlyniadau amrywiol astudiaethau twristiaeth ar yr Ynys<sup>4 5 6 7 8</sup> yn holi pobl am eu prif resymau dros ymweld ag Ynys Môn yn gyson iawn â barn y bobl leol ac yn taflu goleuni ar ba elfennau o 'le' sy'n gyrru'r economi dwristiaeth yn lleol.



<sup>4</sup> Arolwg Ymwelwyr  
Ynys Môn 2012,  
Beaufort Research.

<sup>5</sup> Astudiaeth  
Canfyddiadau  
Ymwelwyr Ynys Môn  
2013, Beaufort  
Research.

<sup>6</sup> Arolwg Ymwelwyr  
Ynys Môn 2013,  
Strategic Marketing

<sup>7</sup> Arolwg Ymwelwyr  
Cymru 2016:  
Adroddiad  
Gorsaf Rheilffordd  
a Phorthladd Fferi  
Caergybi.

<sup>8</sup> Arolwg Ymwelwyr  
Cyngor Sir Ynys Môn  
2017, Strategic  
Research & Insight.



3.4 Yn olaf, yng ngweddill yr adroddiad hwn cyflwynir barn y bobl sydd wedi'u hethol i gynrychioli pobl Ynys Môn (ein gwleidyddion lleol) am yr hyn sy'n gwneud yr Ynys yn lle mor arbennig ac unigryw i'r bobl y maen nhw'n eu cynrychioli a'u gwasanaethu.

3.5 Os ystyriwn y pethau uchod i gyd, mae cysondeb a chytgord clir rhwng:-

- y themâu sydd wedi'u hadnabod gan y gymuned leol a'i chynrychiolwyr fel y rhai sy'n gwneud Ynys Môn yn lle unigryw ac arbennig; a
- y themâu sydd wedi'u hadnabod gan ymwelwyr i'r Ynys fel eu cymhellion dros fod eisiau ymweld ac aros ar yr Ynys.

Y themâu cyffredin hyn, y byddwn yn eu hadolygu'n fwy manwl yn Adran 4, yw:-

- Yr Iaith Gymraeg
- Cymunedau Cryf
- YTirlun
- Yr Amgylchedd Naturiol
- Gwledigrwydd, Heddwch a Thangnefedd
- Yr Arfordir
- Hanes a Threftadaeth
- Gweithgareddau Awyr Agored

## 4. Themâu Cyffredin

### 4.1 Yr iaith Gymraeg

4.1.1 Mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn edau aur sy'n rhedeg drwy'r holl gymdeithas ar Ynys Môn. Mae'n gwlwm ar gyfer yr ymdeimlad cryf o gymuned ac wedi'i chysylltu'n annatod i hanes, gan ddiffinio'r ardal a'i thrigolion. Ar ôl deddfu Deddf iaith Gymraeg 1993, penderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn fabwysiadu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail bod ganddynt statws cyfartal.

4.1.2 Mae'r Ynys yn cael ei hystyried yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg. Mae'n elfen naturiol o fywyd pob dydd ar yr Ynys, mae ein plant yn cael eu magu a'u haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy ddiwylliant a thraddodiadau Cymreig. Mae dyfodol a chynaliadwyedd y Gymraeg ar Ynys Môn yn cael ei fwydo gan ddigonedd o gyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith yn ddyddiol, drwy'r system addysg, dosbarthiadau Cymraeg, gwahanol gymdeithasau, mudiadau a chlybiau (Strategaeth iaith Gymraeg IACC 2016-21). Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cydnabod pwysigrwydd cynnal y sefyllfa a'r ffordd yma o fwy drwy gynnwys 'Cymru gyda diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu' fel un o'r saith nod llesiant – a hyn i'w gyflawni mewn 'cymdeithas sy'n hyrwyddo a gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden'.

4.1.3 Yn 1951, roedd tua 76% o boblogaeth Ynys Môn yn siaradwyr Cymraeg (38,433 allan o boblogaeth o 50,600). O ran niferoedd absoliwt, mae'r sefyllfa wedi aros yn gymharol gyson (38,568 yn 2011 – mymryn yn uwch nag yn 1951). Erbyn Cyfrifiad 2011, fodd bynnag, dim ond 57.2% o boblogaeth yr Ynys oedd y ffigur hwn yn ei gynrychioli. Nod Cynllun Strategol Ynys Môn 2017-2020 yw y bydd 'pob disgybl sy'n mynd drwy gyfundrefn addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt fod yn 16 oed', ac yn hyderus yn siarad y ddwy iaith mewn sefyllfaedd gwaith, diwylliannol a chymdeithasol. Er i Gyfrifiad 2011 ddangos bod y ganran o 57.2% o'r bobl ar yr Ynys sy'n siarad Cymraeg yn sylweddol uwch na'r ganran gyfartalog genedlaethol (19%), mae'n gostwng yn gynt na'r ganran gyfartalog genedlaethol. Er hynny Ynys Môn sydd â'r ail gyfradd uchaf o siaradwyr Cymraeg o holl siroedd Cymru.

4.1.4 Mae cryfder yr iaith yn cael ei gydnabod gan bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd fel rhywbeth sy'n greiddiol i naws arbennig ac unigryw Ynys Môn.

“Mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant bywiog yn gweu drwy ein cymunedau fel edau aur”

(Y Cyng. Dylan Rees, Ward Canolbarth Môn)

“Mae'r bygythiad i'r iaith yn real....”

(Y Cyng. Carwyn Elias Jones, Ward Seiriol)

“Coron y cyfan yw'r iaith Gymraeg”

(Y Cyng. Robin Williams, Ward Aethwy)

“mae angen gwarchod a diogelu ein hiaith a'n treftadaeth ddiwylliannol er mwyn cenedlaethau'r dyfodol”

(Y Cyng. Robin Williams, Ward Aethwy)

“Yr iaith ydi asgwrn cefn Ynys Môn ac dylai yr iaith fod yn asgwrn cefn unrhyw ddatblygiad.”

(Y Cyng. Carwyn Elias Jones, Ward Seiriol)

“Mae'n hanfodol i ni warchod ein hasedau mwyaf gwerthfawr.... bydd cymunedau lle siaredir y Gymraeg yn gryf yn y fantol os

cawn fewnlifiad mawr o siaradwyr di-Gymraeg.”

(Y Cyng. Dylan Rees, Ward Canolbarth Môn)

“Nid wyf yn meddwl am Ynys Môn fel rhan o Ogledd Cymru.... mae fel pe bai'n bellach draw a, dwn i ddim pam....mae'n fwy Cymreig.”

(Ymwelydd, Astudiaeth o Ganfyddiadau Ymwelwyr, 2012)

“Un o ddim ond dwy sir yn y byd i gyd lle mae'r rhan fwyaf o'r boblogaethyn siarad Cymraeg.”

(Y Cyng. Vaughan Hughes, Ward Lligwy)

“Mae rhaid gwarchod beth sydd yn gwneud ein Ynys yn unigryw - Dim yn unig y tirwedd a'r harddwch naturiol ond hefyd ein iaith a diwylliant.”

(Y Cyng. Margaret M Roberts, Ward Lligwy)

<sup>9</sup> Strategaeth Iaith  
Gymraeg Cyngor Sir  
Ynys Môn 2016-  
2021

[https://www.  
ynysmon.gov.uk/  
Journals/qbl/n1/  
Strategaeth-iaith-Gy-  
raeg-2016-2021.  
pdf](https://www.ynysmon.gov.uk/Journals/qbl/n1/Strategaeth-iaith-Gyraeg-2016-2021.pdf)

4.1.5 Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i weithio'n galed i gwrdd â'i nod corfforaethol <sup>9</sup> o gynyddu'r gyfran o siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys, yn ôl i'r 60.1% o'r boblogaeth yng Nghyfrifiad 2001, drwy ei fesurau uniongyrchol ei hun a thrwy weithio mewn partneriaeth a chydweithrediad â rhanddeiliaid eraill.

## 4.2 Cymunedau Cryf

2.1 "Ysbryd cymunedol a chymdogion da" oedd un o'r prif agweddau ar fywyd ar yr Ynys a oedd, yn ôl yr ymatebion i arolygon Asesiadau Lles 2017, yn ei gwneud yn lle arbennig i fyw – gan ddod bron i frig y rhestr ym mhob un o'r chwe ardal grŵp ffocws daearyddol (Atodiad A).

2.2 Mae yma fentrau cymunedol cryf. Mae tafarn yr Iorwerth Arms ym Mryngwran, er enghraifft, yn cael ei rhedeg gan y pentrefwyr sy'n benderfynol o beidio â cholli canolbwyt eu cymuned – mae'n cael ei rhedeg yn wirfoddol gan y gymuned leol fel menter di-elw ac erbyn hyn yn ased gwerthfawr: Felly hefyd, mae Caffi Siop Mechell yn fenter gymunedol lwyddiannus yn Llanfechell sy'n cynnwys caffi a chyfres o arddangosfeydd gwahanol gan artistiaid lleol.

2.3 Sefydlwyd y Women's Institute ar Ynys Môn, yn Llanfairpwllgwyngyll, i adfywio cymunedau gwledig ac annog merched i gyfrannu mwy at gynhyrchu bwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae gan Ferched y Wawr, sy'n fudiad cenedlaethol yng Nghymru, 19 o ganghennau ar Ynys Môn yn unig a chafodd ei sefydlu i gefnogi diwylliant, addysg a'r celfyddydau. Mudiad Cymreig yn bennaf ydyw, i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg, gan roi cyfle i ferched gymdeithasu'n fisol, dysgu sgiliau newydd a datblygu'n addysgol drwy amrywiaeth o weithgareddau fel cyfarfodydd, cyngherddau, tripiau, coginio, crefftiau a nosweithiau cwis.

2.4 Rhoddir cefnogaeth i bobl hŷn ar yr Ynys hefyd gyda rhwydwaith o ganolfannau Age Well yn chwarae rhan allweddol mewn hybu lles a chyfleoedd cymdeithasu i bobl dros 50 oed mewn canolfan gymunedol hygyrch sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr lleol.

 "Ein cymunedau cryf sy'n gymunedau Cymreig gyda thraddodiadau dros y cenedlaethau a'r angen i gynnal ysbryd cymunedol iach" (Y Cyng. R Meirion Jones, Ward Aethwy) 

 "Mae ysbryd cymunedol iach yn dal i fodoli yma, a thystiolaeth o hynny i'w weld ar hyd a lled yr Ynys.... heb os, mae'r iaith Gymraeg yn parhau yn bwysig gyda gweithgareddau cymunedol, Cyngorau Cymuned, Cyfarfodydd Llywodraethwyr Ysgolion yn cael eu cynnal drwy gyfrwng yr iaith.... ym mhob ardal yma fe gair tystiolaeth o deuluoedd sy'n gallu olrhain eu hachau yn ôl genedlaethau ynddynt" (Y Cyng. Gwilym O Jones, Ward Llifon) 

4.2.5 Er yn gryf a chlòs, mae ein cymunedau hefyd yn agored a chroesawus.

*“croeso cynnes – lle braf i fod”*  
(Ymwelwyr Ynys Môn, 2013)

*“Mae croeso Cymreig yn eich aros.... p'un ai gan siaradwyr Cymraeg neu ddi-Gymraeg, mae'r croeso bob amser yn gynnes, yn ddiffuant ac o'r galon. Mae ei chymunedau Cymreigaidd cryf a hirsefydlog, rhai ohonynt gyda theuluoedd sydd wedi byw yma ers cenedlaethau, yn rhoi i'r Ynys ei naws a'i hymdeimlad unigryw, rhywbeth na ellir yn iawn ei werthfawrogi heb i chi fod yma ac ymddytho eich hun ym mywyd beunyddiol Ynys Môn”*


(Y Cyng. Robin Williams, Ward Aethwy)

### 4.3 YTirlun


- 4.3.1 Yn ystod yr Oes lâ ddiwethaf 20,000 o flynyddoedd yn ôl, llifodd rhewlifoedd o Eryri a Gogledd Lloegr ar draws Ynys Môn gan gerfio dau ddyffryn neilltuol – un ar hyd Afon Menai fel y mae heddiw a'r llall yn yr ardal o iseldir sy'n gorwedd rhwng Traeth Coch a Malltraeth. Wrth i'r rhew doddi a lefel y môr godi roedd Ynys Môn, erbyn 5,000 o flynyddoedd yn ôl, yn ynys.
- 4.3.2 Cyrhaeddodd y bobl gyntaf i'r ynys tua 8,000 o flynyddoedd yn ôl i dirlun o goedwigoedd derw, cyll, bedw a llwyfenni lle'r oedd pobl yn hela a hel eu bwyd. Aeth y bobl gyntaf ati i godi strwythurau defodol a chladdu nodedig gyda'r tirlun yn cael ei fritho o ganlyniad gan feini hirion, carneddi a beddrodau, sy'n aros hyd heddiw. Daeth gwladychwyr diweddarach â thechnegau amaethyddol ac, yn raddol, dechreuwyd cwympo'r coedwigoedd a chlirio'r tir ar gyfer ei ffermio.
- 4.3.3 O ganlyniad i gael ei sgwrio gan y rhew, mae topograffia'r Ynys ar y cyfan yn batrwm tonnog o bonciau a phantiau gydag ardaloedd mwy creigiog a chaletach yma ac acw fel Ynys Bŷr, Mynydd Parys, Mynydd Bodafon a Mynydd Llwydiarth. Mae tirffurf yr Ynys yn disgyn o'r dwyrain i'r gorllewin gyda sawl ardal o dir isel ar hyd arfordir y gorllewin gan gynnwys Aberffraw, Cors Malltraeth a Chwningar Niwbwrch. Mae'r patrwm tirffurf hwn yn adlewyrchu aliniad gogledd-ddwyrain – de-orllewin prif afonydd yr Ynys.

4.3.4 Mae'r cymeriad cyffredinol hwn yn cuddio daeareg gymhleth. Mae rhai o'r creigiau hynaf yng Nghymru a Phrydain i'w canfod yma. Astudir daeareg yr Ynys yn aml gan ddaearegwyr a myfyrwyr o bob cwr o'r byd. O dan yr enw GeoMôn<sup>10</sup>, ac i gydnabod ei threftadaeth ddaearegol hynod, yn 2010 dyfarnwyd bod yr Ynys yn aelod o'r Rhwydwaith Geobarciau Byd-eang.

<sup>10</sup> Sgrinlun –  
gwefan GeoMôn-  
<http://www.geomon.co.uk/>



4.3.5 Prin erbyn heddiw yw'r coedwigoedd trwchus ar yr Ynys er bod coetiroedd lled-naturiol hynafol i'w cael o hyd ar hyd Afon Menai, ynghyd â phlanigfeydd helaeth o gwmpas Mynydd Llwydiarth a Chwningar Niwbwrch. Mae hanes diwylliannol cyfoethog yr Ynys wedi dylanwadu ar y tirlun gyda thystiolaeth o weithgarwch dyn yn mynd yn ôl 8,000 o flynyddoedd.



4.3.6 Mae yma dros 200 o Henebion Cofrestredig yn amrywio o garneddi o'r Oes Efydd i nodweddion canoloesol mwy diweddar. Mae'r nodweddion tirlun mwy diweddar yn cynwys tirluniau gosodedig yr ystadau mawr fel Plas Newydd, ffyrdd llydain ar gyfer trafnidiaeth a nodweddion diwydiannol gan gynnwys pŵer niwclear a ffermydd gwynt. Adlewyrchir amrywiaeth cyfoethog ac ansawdd y tirlun arfordirol yn nynodiad yr Ynys fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

4.3.7 Mae Diweddariad Strategaeth Tirlun Cyngor Sir Ynys Môn, 2011, yn adnabod 18 o Ardaloedd Cymeriad Tirlun ar draws yr Ynys a ddatblygwyd yn defnyddio adnodd dosbarthu cymeriad tirlun cenedlaethol Cyngor Cefn Gwlad Cymru sef LANDMAP. Mae rhannau helaeth o bob un yn cael eu dosbarthu fel 'uchel' a / neu 'eithriadol' o ran y dosbarthiad cenedlaethol hwn (rhoddir 'ffotyglosodiadau' i roi blas i ni o dirlun godidog yr Ynys, o bob un o Ardaloedd Cymeriad Tirlun yr Ynys, yn Atodiad B). Rhestir dwy ardal yn y Gofrestr o Dirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru: Amlwch a Mynydd Parys (wele Ffig 3) a Phenmon (Ffigyrau 5 a 6 isod).



**Figwr 5:** Pentir Penmon



**Figwr 6:** Priordy Penmon

4.3.8 Roedd "tirlun" a "golygfeydd o'r arfordir a chefn gwlad" yn amlwg iawn yn yr atebion a roddwyd gan drigolion Ynys Môn i'r cwestiwn "beth sy'n gwneud Ynys Môn yn lle da i fyw" yn yr astudiaethau a'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd ar gyfer Asesiadau Lles Ynys Môn yn 2017 (wele 3.2). Ar draws y chwe asesiad ardal lleol a wnaed i ategu Cynllun Lles y Sir, roedd tirlun yn gyffredinol yn un o'r ddua ffactor pwysicaf ym marn trigolion yr Ynys. Ystyriwyd ei fod yn bwysig i wella lles a hefyd bod angen ei ddiogelu a'i warchod.

4.3.9 Felly hefyd gydag ymwelwyr i'r Ynys, yn ôl canfyddiad Beaufort Research yn 'Arolwg Ymwelwyr Ynys Môn' 2012, "pwysigwyd y tirlun naturiol fel cymhelliad i bobl ymweld yw'r rheswm mwyaf cyffredin o bell ar draws y sampl yn gyffredinol." O fewn yr is-grŵp hwn soniodd 88% o'r rhai wnaeth ymateb am 'olgygfeydd, cefn gwlad a mynd i lan y môr'. Mae Arolwg Ymwelwyr Ynys Môn 2013 gan Strategic Marketing yn cynnig y naratif mwyaf cynhwysfawr o ran rhesymau dros ymweld â'r Ynys. Eto "nodweddion tirlun yw'r prif reswm" dros ymweld gyda phedwar o bob pump o'r rhai wnaeth ymateb (79%) yn dweud eu bod yn ymweld "i fwynhau'r tirlun / cefn gwlad / traeth" – llawer uwch na'r canlyniad Cymru gyfan (57%). Dywedodd bron bawb (90%) o'r ymwelwyr o'r DU mai dyma oedd un o'r prif resymau am eu trip. Cadarnhawyd hyn yn 'Arolwg Ymwelwyr Cyngor Sir Ynys Môn' 2017 gan Strategic Research & Insight yn eu hadroddiad a ddywedodd "fel y byddid yn ei ddisgwyli, amgylchedd naturiol – y golygfeydd, y tawelwch a'r llonyddwch, a'r traethau, yw'r brif dynfa i Ynys Môn o hyd. Mae'n gyson ag arolygon ymwelwyr eraill ar Ynys Môn".

4.3.10 Mae'r tirlun, y golygfeydd a chefn gwlad yn bethau y sonnir amdanyst gan ymwelwyr ym mhob arolwg ymwelwyr a gyflawnir, yn enwedig y cyfeiriad at natur ddilyswin yr amgylchedd a'i lonyddwch. I lawer, mae'r ffaith bod Sir Fôn yn Ynys yn ystyrlon iawn iddynt. I eraill, mae cryfder yr iaith yn cyfrannu i'w chymeriad unigryw a naws hynod arbennig y lle.

 "Teimlaff fod Ynys Môn yn rhywle ar wahân.... fel pe bai rhywun yn mynd i ardal gwbl wahanol... mae'n unigryw mewn cymhariaeth ag ardaloedd eraill."

(Merch yn ymweld, Astudiaeth o Ganfyddiadau Ymwelwyr, 2012) 

 "Mae rhywun yn teimlo fel pe baech yn dianc ac mae croesi dwr bob amser yn gyffrous, faint bynnag yw eich oed."

(Merch yn Ymweld, Astudiaeth o Ganfyddiadau Ymwelwyr Ynys Môn, 2012) 

**“Dyna ran o ramant y lle... oherwydd ei bod yn ynys fach... oherwydd bod yn rhaid i rywun groesi'r bont.”**  
(Merch yn ymweld, Astudiaeth o Ganfyddiadau Ymwelwyr Ynys Môn, 2012)

**“Golygfeydd godidog... ardaloedd dilychwin... a chyfeillgar hefyd”**  
(Ymwelwyr Ynys Môn 2013)

**“Traethau hyfryd, golygfeydd anhygoel, croeso cynnes – lle brafiawn i fod”**  
(Ymwelydd, Arolwg Ymwelwyr Ynys Môn, 2013)

4.3.11 O sawl lle ar Ynys Môn mae Parc Cenedlaethol Eryri'n gefndir ysblennydd gan gynnig golygfeydd godidog y gellir eu gweld o lawer o'r traethau a'r bryniau. (Yn wir, gwelir rhai o'r golygfeydd mwyaf ysblennydd a di-dor o Barc Cenedlaethol Eryri o lecynnau ar Ynys Môn – Ffifyrâu 7 ac 8).



Ffigwr 7: Eryri o Ffwmres



Ffigwr 8: Eryri o Lanfairpwllgwyngyll

4.3.12 O bersbectif ein cynrychiolwyr etholedig hefyd, mae tirlun yn chwarae rhan bwysig yn hunaniaeth yr Ynys – ac mae ei diogelu a'i gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn hollbwysig.

*“Cafodd fy niweddar nain ei geni a'i magu ar fferm yn Llanddona ac rwyf wastad yn cofio hi ai brawd yn siarad nifer o weithiau am y pleser oedd ynt yn ei gael o'r amgylchedd wych o'i cwmpas a chwarae a dysgu am natur ar ein Ynys.... Mae yn bwysig gwarchod natur a pryderthwch yr Ynys i'r cenedlaethau i ddod....”*

(Y Cyng. Carwyn Elias Jone, Ward Seiriol)

*“Rydyn ni mor ffodus bod gennym dirluniau naturiol mor hyfryd o'n cwmpas ar Ynys Môn. O arfordir ysgithrog y gogledd i'r arfordir mwy llechweddog a phonciog yn fwy i'r de, mae Ynys Môn yn cynnig amgylchedd naturiol unigryw i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Y tirlun, bioamrywiaeth yr Ynys, ein hardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, ein hiaith a'n treftadaeth ddiwylliannol – mae angen gwarchod a diogelu'r pethau hyn i gyd er mwyn ein plant. Wedi'r cwbl, maent i gyd yn elfennau creiddiol yn yr hyn sy'n gwneud Ynys Môn yn lle mor fendigedig a hynod yn y lle cyntaf”*

(Y Cyng. Robin Williams, Ward Aethwy)

*“mae twristiaeth yn chwarae rhan enfawr yn economi'r Ynys gydag ymwelwyr yn cael eu denu gan y harddwch y golygfeydd... rhaid gwrthsefyll datblygiadau fel peilonau uwchchdaearol ar draws yr Ynys oherwydd byddant yn amharu ar y tirlun ac yn gwneud difrod sylweddol i'r economi ymwelwyr”.*

(Y Cyng. Dylan Rees, Ward Canolbarth Môn)

<sup>11</sup> Cyfoeth  
Naturiol Cymru  
2014, Dosbarthiad  
Tirlun Cenedlaethol,  
Arfordir Ynys Môn.

<sup>12</sup> Cyfoeth  
Naturiol Cymru  
2014, Dosbarthiad  
Tirlun Cenedlaethol,  
Canolbarth Ynys  
Môn.

4.3.13 I gloi, mae arwyddocad gweledol a synhwyrol tirlun Ynys Môn yn cael ei grynhai'n hynod gelfydd ac addas yn adroddiadau Dosbarthiad Tirlun Cenedlaethol (2014) Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW)<sup>11 12</sup> fel a ganlyn “daw hunaniaeth gref yr ardal o fynegiant amrywiol y berthynas rhwng y môr a'r tir, y clogwyni, traethau, aberoedd, twyni tywod a'r gwastadeddau arfordirol, y morlynnoedd a'r porthladdoedd...mae'r tirlun yn dirlun o awyr o'ch cwmpas ym mhob man, sy'n aml yn atgyfnerthu natur agored yr Ynys wrth i gymylau brysuro heibio ar eu taith.... Mae'r golygfeydd draw am fynyddoedd Eryri'n creu cefndir de-ddwyreinio dramatig i lawer o Ynys Môn. Wrth nesáu atynt, mae'r mynyddoedd yn ymddangos yn fwy ysgithrog a mawrwyd, ac o edrych arnynt gydag Afon Menai o gwmpas Biwmares yn y blaen dir, maen nhw'n creu argraff o fawredd a drama a gysylltir yn fwy aml â'r llynnoedd morol yng ngorllewin yr Alban.... Ym mhen arall Afon Menai, mae'r twyni tywod, y traethau a bae Caernarfon yn osodiad ysblennydd ar gyfer golygfeydd o Ben Llŷn, sydd o Ynys Llanddwyn yn cynnig un o'r golygfeydd mwyaf nodedig ac arhosol yng Nghymru.”

## 4.4 Yr Amgylchedd Naturiol

4.4.1 Ar Ynys Môn gallwch ddod ar draws bywyd gwylt nad yw mwyach yn gyffredin ar y tir mawr, fel yr ysgyfarnog a gloyn byw'r fantell goch. Yn y blynnyddoedd diwethaf mae Ynys Môn wedi llwyddo i ddifa'r holl wiwerodllwydion a wnaeth i ffwrdd â'r wiwer goch frodorol. Mae'r gwiwerod llai a phrinnach hyn wedi cael eu hailgyflwyno a bellach yn ffynnu ar yr Ynys, er enghraifft yn yr arboretwm ym Mhlas Newydd ac yng Ngwarchodfa Natur Cwningar Niwbwrch er eu bod hefyd bellach i'w gweld mewn unrhyw ardal goediog ar yr Ynys, yn enwedig yng Ngwarchodfa Natur Nant y Pandy yn Llangefni. Ni all fod llawer o drefi eraill yn y DU lle mae'n bosib cerdded ar ôl gwaith a gweld gwiwerod cochion. (Ffig 9).



Figwr 9: Gwiwer goch yng Nghwarchodfa Nant y Pandy

4.4.2 Mae gan Ynys Môn amgylchedd naturiol pwysig a gwerthfawr. Mae safleoedd o bwysigrwydd Ewropeaidd yn cael eu dynodi i warchod cynefinoedd naturiol a rhywogaethau bywyd gwylt prin, dan fygythiad neu fregus ar draws y Gymuned Ewropeaidd yn gyffredinol. Mae gan Ynys Môn wyth Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), tair Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac un safle Ramsar. Mae gan yr Ynys hefyd bedair Gwarchodfa Natur Genedlaethol:-

- Cors Erddreiniog – y corstir mwyaf ar Ynys Môn;
- Cors Goch – un o sawl corstir iseldir ar Ynys Môn;
- Cors Bodeilio – mignen unigryw mewn dyffryn pantiog o garreg galch; a
- Cwningar Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn – system helaeth o dwyni tywod sydd hefyd yn cynnwys nodweddion daearegol pwysig yn dyddio i'r cyfnod cyn-Gambriaidd;

yn ogystal â 64 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae yma nifer o 'Gynefinoedd Blaenoriaeth' yn cynnwys Rhostir Iseldir ac Arfordirol, Gwelyau Cyrs, Corstiroedd, Coedwigoeedd Llydanddail, Gwrychoedd Hynafol a Llawn Rhywogaethau, Pyllau Dŵr ac Ochrau Ffyrrd Llawn Blodau. Mae gan yr Ynys hefyd rai o'r systemau Twyni Tywod mwyaf helaeth yng Nghymru. Mae rhywogaethau prin a gwarchodedig ar Ynys Môn yn cynnwys y Fadfall Gribog Fwyaf, y Wiwer Goch, y Dyfrgi, Llygoden y Dŵr a'r Frân Goesgoch.

Plannwyd Coedwig Niwbwrch rhwng 1947 a 1965 i warchod y pentref rhag tywod oedd yn cael ei chwythu o'r traethau. Mae'n ardal bwysig i fywyd gwylt ac yn cynnwys un o'r clwydi mwyaf ar gyfer cigfrain yn y byd; mae hefyd yn un o'r ychydig safleoedd yn y DU lle mae nythfeydd o wiwerod cochion i'w cael

Gallwch gyrraedd Llanddwyn, ynys hudolus llawn o hanes sy'n gorwedd oddi ar arfordir traeth Niwbwrch, ar droed ar lanw isel i weld ei goleudy enwog a'i heglwys hynafol wedi'i chysegru i Santes Dwynwen. Mae'n llecyn hynod boblogaidd gyda phobl leol, ymwelwyr, ffotograffwyr ac arlunwyr.

- 4.4.3 Roedd trigolion Ynys Môn yn rhoi pwyslais mawr ar yr amgylchedd naturiol yn Asesiad Lles Ynys Môn. Daeth i frig y rhestr o'r pethau oedd yn "gwneud Ynys Môn yn lle braf i fyw" ac a oedd "yn cyfrannu fwyaf at wella lles ac ansawdd bywyd yn yr ardal".
- 4.4.4 Yn yr un modd ag y mae'r trigolion yn gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol – mae ymwelwyr i'r Ynys hefyd, dros y blynnyddoedd, wedi eu hys brydoli ganddo. Ar raglen Tweet for the Day ar BBC Radio 4 (Mawrth 2018) yn ddiweddar, dywedodd milfeddyg o Sir Gaer (trawsgrifiad a chyflieithiad yn Atodiad C) sut y gwnaeth y profiad o weld Hebog Tramor ar risiau Goleudy Ynys Lawd fel disgybl ysgol gynradd ifanc yn ymweld ag Ynys Môn ei ysbrydoli i ddilyn gyrrfa mewn milfeddygaeth adar. Mae sylwadau cyffredinol a wneir yn ystod amrywiol arolygon twristiaeth hefyd yn dangos y gwerth a roddir ar amgylchedd naturiol yr Ynys.

 "Harddwch naturiol heb ei fasnacheiddio ...."  
(Ymwelydd, Arolwg Ymwelwyr Ynys Môn, 2012) 

 "Pethau naturiol, a neb wedi ymyrryd â nhw "  
(Ymwelydd, Arolwg Ymwelwyr Ynys Môn, 2012) 

#### 4.4.5 Felly hefyd i aelodau ein hawdurdod lleol

**“Mae yr amgylchedd naturiol brydferth o'n gwmpas yn gwneud Ynys Môn yn le hardd, heddychlon ac unigryw i fyw wedi amgylchynu yn gyfan gwbl gyda arfordir.... ein hamgylchedd naturiol yw un o'r prif resymau dros fyw ar, ac ymweld â'r Ynys”**

(Y Cyng. Carwyn Elias Jones, Ward Seiriol)

**“Deuais i fyw ar yr Ynys gyntaf yn 1984.... mae 34 o flynyddoedd wedi gwneud i mi werthfawrogi pa mor arbennig yw'r ynys hon. Dewisaf y gair “arbennig” yn ofalus iawn.... mae gymaint o bethau sy'n gwneud yr Ynys hon yn arbennig....pryderthwch y tirlun, y traethau dilychwin a thawelwch y coedwigoedd.... ei daeareg unigryw a'i statws fel “Geobarc”... y cynefinoedd gwych ar gyfer ein bywyd gwylt, e.e. Prosiect Gwarchod y Wiwer Goch, a'r nythfeydd gwenoliaid y môr yng Nghemlyn”**

(Y Cyng. Dylan Rees, Ward Canolbarth Môn)

<sup>13</sup> Byrne, R.J. 1996. (cyhoed-dwyd 2007). *Field Boundaries in Anglesey. Landscape Research*, 21:2, 189-194


## 4.5 Gwledigrwydd, Heddwch a Thangnefedd

4.5.1 Mae 'gwledigrwydd' yn allweddol i ddiffinio naws arbennig Ynys Môn, yn enwedig yn y rhannau hynny o'r Ynys sydd yn y canol. Mae gwledigrwydd ac economi amaethyddol yr Ynys yn mynd law yn llaw. Nodweddir Ynys Môn yn bennaf gan ardal amaethyddol ac mae canrifoedd o ffermio, mewn ffyrdd traddodiadol iawn, wedi creu poblogaeth wledig a gwasgaredig. Mae'r etifeddiaeth o arferion ffermio traddodiadol, gan genedlaethau o deuluoedd, wedi gwarchod cymeriad yr Ynys, gyda chaeau bychain, clôs a chreigiau'n brigo i'r wyneb yma ac acw'n nodwediadol iawn o'i chefn gwlad (Ffig 10). Ochr yn ochr â'r pethau hyn, mae'r 'cloddiau' nodedig (gwrychoedd traddodiadol o gerrig a phridd – gwelir rhai o'r enghreifftiau gorau ar Ynys Môn <sup>13</sup>), yn nodwediadol o gymeriad gwledig Ynys Môn.



**Ffigwr 10:** Gwledigrwydd – Mynydd Bodafon – golygfa gyffredin ar draws cefn gwlad Ynys Môn

4.5.2 Cefnogir y pwyslais a roddir ar lonyddwch, tawelwch a thangnefedd gan ystadegau cwynion sŵn yr Ynys rhwng 2009 – 2017 (Ffig 11). Mae cwynion am sŵn bron o unrhyw ffynhonnell, o'r naill flwyddyn i'r llall, yn aml yn y ffigurau unigol isel. Mae Ynys Môn yn lle heddychlon, tawel a llonydd iawn!



**Ffigwr 11: Ystadegau cwynion sŵn 2009 - 2017 Cyngor Sir Ynys Môn**

4.5.3 Mae'r teimlad o dawelwch, tangnefedd a llonyddwch ac o ddianc o'r 'tir mawr' i gefn gwlod Ynys Môn yn un sy'n cael ei rannu gan drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. 'Tawelwch a llonyddwch' oedd un o'r prif resymau pam y dywedodd trigolion yr Ynys ei bod yn lle arbennig i fyw yn Asesiad Lles 2017 – roedd hefyd ar frig y rhestr o ran beth oedd yn cyfrannu fwyaf at eu lles. Mae pwysigrwydd gwledigrwydd a thawelwch hefyd yn cael ei adleisio gan gynrychiolwyr etholedig ac yn un o'r prif resymau dros ddenu ymwelwyr i'r Ynys.

**“Mae'n hardd, yn heddychlon a bron heb unrhyw lygredd”**  
(Ymwelydd, Arolwg Ymwelwyr Ynys Môn, 2013)

**“Mae'r tirlun gwledig yn unigryw.... a rhaid ei gadw felly”**  
(Y Cyng. Richard Dew, Ward Llifon)

*“Mae Ynys Môn yn lle gwirioneddol hudolus i fyw, gweithio a magu teulu. Maen nhw'n dweud bod byw ar Ynys yn rhoi perspectif gwahanol i rywun ar fywyd ac er ein bod ond ychydig gannoedd o lathenni o'r tir mawr, credaf fod hyn yr un mor wir am Ynys Môn ag y mae am unrhyw ynys arall yn y byd... mae yma'r teimlad hwnnw pan gyrhaeddwch eich bod wedi “dianc” o swn a bwrlwm bywyd ar y tir mawr, i lonyddwch a thangnefedd Ynys Môn.”*

(Y Cyng. Robin Williams, Ward Aethwy)

## 4.6 Yr Arfordir

4.6.1 Mae'r Ynys, sydd wedi'i chysylltu i'r tir mawr gan ddwy bont, yn brolio un o'r tirluniau arfordirol mwyaf amrywiol yn Ynysoedd Prydain – o glogwyni isel gyda childraethau a thraethau cerigos i glogwyni serth o garreg galch, traethau tywod ac eangderau o dwyni tywod. Yn ogystal â'r brif Ynys mae nifer o ynysoedd eraill oddi ar yr arfordir. Saif y prif borthladd yng Nghaergybi ar Ynys Gybi (wedi'i chysylltu i'r tir mawr mewn dau le, ym Mhontrhydybont a'r Cob) a draw o'r fan hyn gorwedd ynys arall lai eto, lle saif goleudy dramatig Ynys Lawd (Ffig 12). Mae ynysoedd eraill yn cynnwys Ynys Llanddwyn (Ffig 13 a 14), Ynysoedd y Moelrhoniaid, Ynys Moelfre, Ynys Seiriol, Ynys Cwyfan ac Ynys Dulas.



**Figwr 12:** Ynys Lawd



**Ffigwr 13:** Ynys Llanddwyn



**Ffigwr 14:** Ynys Llanddwyn a'r traeth gyda golygfeydd draw am Eryi a thu hwnt.

4.6.2 Mae'r ardal arfordirol amrywiol yma'n cynnal amrywiaeth eang o fywyd gwylt a phlanhigion. Nid ddylai fod yn syndod felly bod gan Ynys Môn ddwy Warchodfa RSPB. Mae RSPB Ynys Lawd yn gynefin carreg galch gwarchodedig i'r frân goesgoch, y wylog, gwalch y penwaig ac aderyn y pâl i enwi dim ond rhai, ac mae RSPB Gwlyptiroedd y Fali yn lle gwych i wyllo adar dŵr a'r wylan benddu, ac i weld tegeiriannau brych y rhos a gweision y neidr.

4.6.3 Mae gan AoHNEYnys Môn elfen arfordir sylweddol yn ymestyn dros y rhan fwyaf o'r 201 km o arfordir ac yn gorchuddio tua 221 km sgwâr (21,500 hectar). Mae'r dynodiad yn adlewyrchu amrywiaeth y tirluniau arfordirol nodedig. Mae cynefinoedd amrywiol o rostiroedd morol i wastadeddau llaid hefyd yn cyfrannu diddordeb morol, botanegol ac ornitholegol i'r AoHNE. Mae'r AoHNE yn cyd-ddigwydd â stribynau o Arfordir Treftadaeth, wedi'i ddynodi i warchod y rhannau o'r arfordir sydd heb gael eu datblygu a hefyd i'w gwneud yn hygrych i'r cyhoedd ar gyfer hamdden ac i'w mwynhau. Mae arfordir Ynys Môn yn feithrinfa bwysig i rywogaethau o ledod a draenogiaid y môr. Mae yma boblogaethau lleol bwysig o bysgod mudol o deulu'r eog. Mae pysgota môr o draeth a chlogwyn yn boblogaidd gyda phobl leol ac ymwelwyr.

4.6.4 Gydag 11 o draethau wedi ennill 'Baner Las' Cadw Cymru'n Daclus, neu 'Wobr Glan Môr', mae traethau tywod eang yr Ynys yn atyniad mawr i'r economi ymwelwyr yn yr haf.

 *Mae'r arfordir yn ddilychwin... nid yw'n rhy brysur gydag ymwelwyr... fel Cernyw hanner can mlynedd yn ôl"*  
(Ymwelydd, Arolwg Ymwelwyr Ynys Môn, 2013) 

 *"Traethau hyfryd, golygfeydd hudolus, croeso cynnes – lle brafiawn i fod"*  
(Ymwelydd, Arolwg Ymwelwyr Ynys Môn, 2013) 

### Baner Las Cadw Cymru'n Daclus ar Môn


- Biwmares – Gwobr Glan Môr
- Benllech – Traeth Baner Las
- Porth Swtan – Traeth Baner Las
- Llanddona – Traeth Baner Las
- Llanddwyn – Traeth Baner Las
- Porth Dafarch – Traeth Baner Las
- Porth Eilian – Gwobr Glan Môr
- Traeth Llydan, Rhoscolyn – Gwobr Glan Môr
- Traeth Coch – Gwobr Glan Môr
- Traeth Crigyll – Gwobr Glan Môr
- Bae Trearddur – Traeth Baner Las

## 4.7 Hanes a Threftadaeth

4.7.1 Yn ogystal â'r ffaith mai Ynys Môn yw'r ynys fwyaf oddi ar arfordir Cymru a Lloegr, mae hefyd yn cael ei hystyried i fod y fwyaf sanctaidd. Mae ei 276 milltir sgwâr wedi gweld ton ar ôl ton o bobloedd, technolegau a chredoau a llawer wedi gadael ôl arhosol ar y tirlun. Ynghyd ag Orkney a Gwastadedd Caersallog, mae'n un o'r tirluniau cynhanesyddol cyfoethocaf yn y Deyrnas Unedig, ac yn drysor archeolegol.

<sup>14</sup> Gwefan History on the Ground Website. Henebion Cofrestredig, Ynys Môn. <https://ancientmonuments.uk/wales/isle-of-anglesey#W4ZbYeQzVfw>


4.7.2 Daeth ton ar ôl ton o wladychwyr, o'r helwyr Mesolithig cynnar i'w disgynyddion Neolithig diweddarach a ddechreuodd ffermio yma, i'r Ynys a chanfod ei bod yn ffrwythlon. Dechreuodd y bobl hyn greu mannau arbennig ar y tir, gan eu hadnabod fel llefydd hynod neu sanctaidd. Y ffermwyr Neolithig cynnar oedd y rhai, wrth ddod â chymunedau at ei gilydd, a gododd garneddi hynod a chreu gwaith pridd mewn cydosodiad ystyrlon i bob golwg â henebion a nodweddion tirlun naturiol eraill. Mae nhw wedi gadael henebion pwysig sydd o ddiddordeb byd-eang, gan gynnwys y cylch pridd archeolegol bwysig yng Nghastell Bryn Gwyn, y carneddi ym Mryn Celli Ddu a Barclogiad y Gawres, i enwi dim ond rhai. Mae 143 o Henebion Cofrestredig wedi eu gwasgaru ar draws yr Ynys<sup>14</sup> (Ffig 15).



Ffigwr 15: Dosbarthiad Henebion Cofrestredig ar yr Ynys

4.7.3 Mae amgylchedd adeiledig yr Ynys hefyd yn llawn o adeiladau hanesyddol yn mynd yn ôl ganrifedd. Unwaith eto mae stoc sylweddol o 1120 o Adeiladau Rhestredig ar wasgar ar draws yr Ynys (Ffig 16<sup>15</sup>). Dynodwyd 38 ohonynt yn adeiladau o'r pwysigrwydd mwyaf (Gradd I), mae 99 yn Radd II\* a'r gweddill yn Radd II. Maen nhw'n cynnwys ystod eang iawn o strwythurau, gan gynnwys pontydd, waliau, ffynhonnau, bythynnod traddodiadol, plastai ystâd mawr ac adeiladau fferm.

<sup>15</sup> Map Môn.  
System  
Gwybodaeth  
Ddaearyddol  
Cyngor Sir  
Ynys Môn



4.7.4 Mae Castell Biwmares (Ffig 17), sy'n rhan o'r Safle Treftadaeth Byd a elwir yn Gestyll a Muriau Tref Brenin Edward I, yn cael ei ystyried gan lawer fel y godidocaf o holl gestyll Edward I yng Nghymru. Cawsant eu codi ar gyfer Edward I ar ôl iddo orchfygu Cymru a Llywelyn ap Gruffydd (Llywelyn ein Llyw Olaf), Tywysog Cymru, gan weithredu fel canolfannau gweinyddol yn ogystal â milwrol. Codwyd Castell Biwmares rhwng 1295 a 1330 fel castell perffaith gonsentrig bron gyda phedwar gwahanfur amddiffynol a mynediad uniongyrchol i'r môr. Mae gan dref glan y môr Biwmares gymsgedd o bensaernïaeth Siorsaidd, Fictorianaidd ac Edwardaidd gyda golygfeydd ar draws Afon Menai a draw am Eryi. Mae'r Llys (dathlodd ei ben-blwydd yn 400 oed yn 2014) a'r Carchar ym Miwmares yn rhoi cipdrem ar fydd y carcharor yn y 1800au.



**Figwr 17:** Castell Biwmares

4.7.5 Yn ogystal â Chastell Biwmares, sy'n adeilad rhestradig Gradd I, mae Pont Grog y Fenai (Ffigwr 18) hefyd wedi'i rhestru'n Radd I.



**Figwr 18:** Pont Grog y Fenai (Pont y Borth)

4.7.6 Mae gan yr Ynys hefyd 12 o Ardaloedd Cadwraeth (y rhan fwyaf yn ymneud â hen borthladdoedd neu aneddiadau hanesyddol), 143 o Henebion Cofrestredig gan gynnwys 89 o safleoedd amddiffynol ac angladdol cynhanesyddol, carneddi a beddrodau, henebion cylchoedd pridd a cherig, meini hirion unigol, bryngaerau a chylchoedd cutiau, safleoedd mynachlogydd, eglwysi a chapeli, mynwentydd, croesau a ffynhonnau sanctaidd. Hefyd yn gysylltiedig â'i gorffennol fel Môn Mam Cymru, mae gan yr Ynys weddillion 32 o hen felinau. Mae Melin Llynon (Ffig 19), fel melin wedi'i hadfer i weithio a'r unig felin ar ôl yng Nghymru sy'n dal i weithio, yn atyniad twristiaeth hynod boblogaidd.



Figwr 19: Melin Llynon

<sup>16</sup> Arolwg  
Ymwelwyr  
Ynys Môn 2012,  
Beaufort  
Research.

4.7.7 Mae cyfoeth o dreftadaeth ddiwydiannol hefyd i'w gweld ar yr Ynys. Mynydd Parys yn Amlwch yng ngogledd-ddwyrain yr Ynys (y mwynglawdd copor mwyaf yn y byd unwaith, yn cynhyrchu 3,300 tunnell o gopor bob blwyddyn yn y 18fed ganrif), yw'r un o'r ychydig safleoedd ym Mhrydain lle mae tystiolaeth o gychwyniad cynhanesyddol y diwydiant mwyngloddio ym Mhrydain. Heddiw, mae Mynydd Parys a'i dirlun dramatig o greigiau oren a phorffor yn cael ei fwynhau gan ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd, gyda llwybr cerdded o gwmpas y mynydd sy'n rhoi golygfeydd ar draws yr Ynys ac i lawr am Borthladd Amlwch lle'r oedd y copor unwaith yn cael ei allforio. Ar hyd yr arfordir y mae Gwaith Brics Borthwen, cildraeth poblogaidd iawn ar hyd Llwybr yr Arfordir. Roedd glo hefyd yn cael ei gloddio o 28 o byllau glo bychain ar gyrrion Cors Malltraeth. Mae "I ymweld ag adeiladau hanesyddol a mwynhau hanes a threftadaeth" yn rheswm a roddir gan lawer iawn o ymwelwyr dros ymweld ag Ynys Môn (29%<sup>16</sup>), ac yn dod yn ail ond "i fwynhau'r tirlun, cefn gwlad a'r arfordir). Mae hyn yn arbennig o wir yn achos ymwelwyr o dramor.

4.7.8 Mae treftadaeth a diwylliant llenyddol ac artistig hefyd yn bwysig. Lleolir llawer o straeon y Mabinogi, sy'n ymddangos mewn dwy lawysgrif Gymraeg o'r Canol Oesoedd (Llyfr Gwyn Rhydderch, a ysgrifennwyd tua 1350, a Llyfr Coch Hergest a ysgrifennwyd tua 1382–1410) ar Ynys Môn. Y Mabinogi yw'r casgliad straeon cynharaf o holl lenyddiaeth Prydain – gan gynnig drama, athroniaeth, rhamant, trasiedi, ffantasi a hiwmor – sy'n golygu bod ganddynt nid yn unig arwyddocad lleol ond cenedlaethol hefyd. Lleolir llawer ohonynt yn ardal Aberffraw/ Llanddwyn, gyda Branwen (a briododd Brenin Iwerddon, Matholwch, i geisio dod â heddwch rhwng y ddwy wlad) yn cael ei chladdu ger Llanddeusant yn ôl traddodiad.

4.7.9 Mae Ynys Môn hefyd yn gartref i gasgliadau celf a diwylliannol pwysig yn Oriel Môn ger Llangefni, ac i nifer o orielau eraill ar draws yr Ynys sy'n arddangos gwaith arlunwyr, ffotograffwyr a chrefftwyr cyfoes sy'n adnabyddus yn lleol ac yn fyd-eang. Cafodd Syr Kyffin Williams KBE, RA arlunydd tirluniau byd-enwog, ei eni a'i fagu ar Ynys Môn gyda llawer o'i weithiau wedi cael eu hysbrydoli gan eangderau tirlun ac amaethyddol yr Ynys. Mae Williams yn cael ei ystyried gan lawer fel prif arlunydd Cymru yn yr 20fed ganrif ac o ganlyniad, mae ei waith i'w weld mewn arddangosfa barhaol yn Oriel Môn ac mewn nifer o orielau eraill ar draws Prydain. Treuliodd Charles Frederick Tunnicliffe OBE, RA, peintiwr bywyd gwylt oedd hefyd yn fyd-enwog, y rhan fwyaf o'i fywyd gwaith yntau ar Ynys Môn yn ennill ysbrydoliaeth o'i amgylchoedd.

4.7.10 Mae treftadaeth gyfoethog o gelfyddydau perfformio hefyd yn parhau i chwarae'r rôl amlwg ym mywyd diwylliannol yr Ynys bob dydd. Cynhelir eisteddfodau, cyfarfod o artistiaid Cymreig yn dyddio'n ôl i'r 12fed ganrif o leiaf pan ddechreuodd gwyliau barddoniaeth a cherddoriaeth gael eu cynnal yng Nghymru, yn flynyddol o hyd gan lawer o'r cymunedau ar yr Ynys. Mae gan yr Urdd, y mudiad Cymraeg cenedlaethol i ieuengtied Cymru sy'n cynnig pob math o weithgareddau i blant ar draws y wlad, aelodaeth gref ar yr Ynys. Ynghyd ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru ac Eisteddfod yr Urdd (a gynhelir yn flynyddol mewn gwahanol leoliadau ar draws Cymru) ac eisteddfodau cymunedol lleol, mae gan Ynys Môn hefyd ei heisteddfod flynyddol ei hun. Nid yn unig y daw doniau gorau'r Ynys i'r eisteddfod i ganu, dawnsio ac adrodd, mae'r cystadlaethau celf a gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i blant cynradd ac uwchradd hefyd yn boblogaidd iawn. Ynys Môn oedd cartref yr Eisteddfod Genedlaethol mor ddiweddar ag Awst 2017 (hefyd yn 1957, 1983 a 1999) gan ddenu tua 150,000 o ymwelwyr a mwy o arian wedi cael ei godi i'r wyl nag erioed o'r blaen. Ni allwn byth orbwysleisio pa mor bwysig yw'r digwyddiadau hyn i ddod â'r gymuned leol at ei gilydd.

 Mae'r diwylliant cynhenid megis eisteddfodau lleol yn dal eu tir...


Ynys Ile mae'r diwylliant Cymraeg yn ddigon cryf i feithrin cenedlaethau o gerddorion, llenorion, artistiaid a pherfformwyr, rhai o statws rhwngwladol.

(Y Cyng. Vaughan Hughes, Ward Lligwy)



## 4.8 Gweithgareddau Awyr Agored

4.8.1 Gyda Llwybr Arfordir 125 milltir o hyd o gwmpas yr Ynys i gyd erbyn hyn (drwy'r AoHNE a'r ardaloedd o Arfordir Treftadaeth – Ffig 20), ac ystod eang o lwybrau cerdded traws-ynys a chylchol eraill, mae'n hawdd dysgu mwy am natur, hanes ac archeoleg gyfoethog yr Ynys ar droed. Mae llwybr yr arfordir yn pasio drwy dirluniau o rostir arfordirol, twyni tywod, tir fferm, clogwyni ac ambell lecyn o goed; mae'n boblogaidd iawn ac yn cael ei werthfawrogi gan ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd.



Ffigwr 20: Llwybr Arfordir Ynys Môn (mewn glas)

4.8.2 Mae beicio hefyd yn weithgaredd hynod boblogaidd gyda 'Rhwydwaith Beicio Gwledig' helaeth yn cynnwys llwybrau beicio cylchol yn cris-groesi'r Ynys (Ffig 21) a llwybrau gydag arwyddbyst fel Lôn Las Cefni a'r Llwybr Copr.



Ffigwr 21: Y prif lwybrau beicio cylchol.

4.8.3 Mae pobl leol ac ymwelwyr wrth eu bodd yn nyfroedd Afon Menai a gydag ehangder yr arfordir agored o gwmpas yr Ynys. Mae Ynys Môn yn denu pobl yn eu miloedd i fwynhau chwaraeon dŵr, o forwyr i arfor gampwyr, deifwyr sy'n plymio'r dyfroedd i chwilio am longddrylliadau ar wely'r môr, i syrffwyr, hwylfyddwyr a theuluoedd sy'n mwynhau padlo a sblasio yn y dŵr bas ar y traethau dirifedi y soniwyd amdanynt yn flaenorol yn 4.6.

4.8.4 Roedd 'mynediad i'r awyr agored' a 'cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored' ymhliith y prif atebion a roddwyd gan bobl leol Ynys Môn yn Asesiad Lles 2017 i'r cwestiwn "beth sy'n gwella eich lles ac ansawdd eich bywyd?". 'Cerdded llwybrau a llwybr yr arfordir' y soniwyd amdano'n ddi-gymhell fwyaf fel yr agwedd oedd yn cyfrannu at fwynhad ymwelwyr yn arolwg ymwelwyr 2012 gan Beaufort Research.

 *"Dewis da iawn o lwybrau cerdded... a manylion da"*  
(Ymwelydd, Arolwg Ymwelwyr Ynys Môn, 2013) 

 *"Mae'r llwybrau arfordirol yn wych... gallwch gerdded o gwmpas yr ynys i gyd"*  
(Ymwelydd, Arolwg Ymwelwyr Ynys Môn, 2012) 

 *"Mae cerdded llwybr yr arfordir yn fy amser sbâr yn un o bleserau mwyaf bywyd"*  
(Y Cyng. Carwyn Elias Jones Ward Seiriol) 

## 5. Edrych tua'r Dyfodol

- 5.1 Ar wahân i'r uchod mae Ynys Môn yn parhau fod yn 'Wlad y Medra'. Mae ganddi gymuned wydn a blaengar sy'n agored i, yn derbyn ac yn barod i wneud y mwyaf o unrhyw newid.
- 5.2 Mae 'mwy o gyfleoedd gwaith', 'mwy o fusnesau lleol', 'cysylltiadau trafnidiaeth gwell', 'mwy o siopau (yn enwedig rhai sy'n denu ymwelwyr)' a 'seilwaith TG a chyfathrebu gwell' yn themâu a gododd dro ar ôl tro gyda chymunedau'r Ynys yn y chwe Asesiad Lles Ardal a wnaed ar Ynys Môn yn 2017 ar gyfer Cynllun Llesiant Ar y Cyd Gwynedd a Môn.
- 5.3 Felly hefyd, cyfeiriodd ein harweinwyr dinesig lleol wrth edrych ar y newidiadau a wnaeth gyfraniad cadarnhaol i'r Ynys yn y blynnyddoedd diwethaf, at ystod o ddatblygiadau a buddsoddiadau sydd yn eu barn hwy'n briodol a manteisiol.

**“Mae busnesau bach, caffis a thai bwyta'n agor ar yr Ynys, a busnesau gyda mwy o enw rhyngwladol fel “Halen Môn” er enghraifft”**  
(Fôn Roberts, Pennaeth y Gwasanaeth Plant, Teuluoedd a Chymunedau - CSYM)

**“...y cyfleoedd newydd sydd wedi codi i ddefnyddio ynni o'r môr”**  
(Y Cyng. Dylan Rees, Ward Canolbarth Môn)

**“Mae Parc Gwyddoniaeth Menai, sydd newydd agor yn Gaerwen yn ddiweddar, yn cyflwyno cyfleoedd diri i ddod â busnesau newydd ac arloesol i Ynys Môn.”**  
(Y Cyng. Robin Williams, Ward Aethwy)

**“...twristiaeth gyda phwyslais ar dai bwyta o'r safon orau, yn defnyddio cynnyrch lleol...”**  
(Y Cyng. Richard Dew, Ward Llifon)

“

*“y buddsoddiad aruthrol gan Goleg Menai mewn datblygu  
canolfannau sgiliau ar gyfer ein pobl ifanc ac adeiladu Ffordd  
Gyswilt Llangefnî”*

(Y Cyng. Dylan Rees, Ward Canolbarth Môn)

”

“

*“Y buddsoddiad gan Goleg Menai mewn creu canolfannau sgiliau  
fydd yn rhoi'r sgiliau a'r gallu i'n pobl ifanc i weithio yn y diwydiannau  
arloesol hyn a thrwy hynny, gobeithio, yn atal colli'r doniau ifanc fel y  
gwelsom dros ddegawdau diweddar.....mae'n rhaid i Ynys Môn greu swyddi  
da, sefydlog sy'n talu'n dda i sicrhau lles ein cymunedau yn y dyfodol.”*

(Y Cyng. Robin Williams, Ward Aethwy)

”

## 6. Casgliad

6.1 Fel Awdurdod Lleol, mae ein cynrychiolwyr etholedig felly'n amlwg yn awyddus i achub ar bob cyfle ar ran pobl yr Ynys a allai drawsnewid economi'r Ynys yn y dyfodol. Maen nhw hefyd am sicrhau bod y cyfleoedd hyn yn cael eu gwireddu er mwyn sicrhau bod cymunedau'r Ynys yn aros yn gynaliadwy yn y tymor hir – ond yr amod yw nad yw datblygu a newid yn dderbynol am unrhyw bris.

6.2 Fel y gwelwn o'r adroddiad hwn, mae gan Ynys Môn dirlun o werth uchel iawn gyda'r arfordir i gyd bron wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE) gyda stribynau yma ac acw o Arfordir Treftadaeth. Ochr yn ochr â hyn y mae'r amgylchedd adeiledig cyfoethog sy'n cynnwys amrediad sylweddol ac amrywiol o asedau a safleoedd treftadaeth yn olrhain hanes yr Ynys a'i datblygiad dros filoedd o flynyddoedd. Mae tirlun gwerthfawr a threftadaeth gyfoethog yr Ynys yn rhan o gyd-destun gwledig sy'n rhoi ymdeimlad o lonyddwch a thawelwch – lle sy'n wirioneddol wahanol, ac ar wahân, i'r tir mawr.

6.3 Mae Ynys Môn ynghyd â'i thir, tirluniau, adnoddau naturiol a'i hasedau wedi bod yn greiddiol i gynnal cymunedau lleol cryf ers cenedlaethau lawer – pethau sy'n ganolog i'w heonomi amaethyddol fywiog a hollbwysig. Mae'r asedau hyn hefyd yn cynnal ac ategu sector twristiaeth sy'n dal i dyfu ac sy'n greiddiol i gynaliadwyedd economi'r Ynys yn y dyfodol.

6.4 Mae'r iaith Gymraeg yn eithriadol bwysig. Ein hiaith yw'r edau aur sy'n gweu hanes a threftadaeth yr Ynys i'w gilydd ac yn rhoi ymdeimlad cryf o berthyn, cymuned, cymdeithas glös a lles. Mae'n angori natur bywyd ar yr Ynys gan hefyd gyfrannu ei thraddodiadau ei hun o ganu, dawsio a'r celfyddydau gweledol a llenyddol.

6.5 Heb os mae Ynys Môn yn lle unigryw ac arbennig iawn. Ond er ei bod yn edrych tuag allan ac yn barod i gofleidio newid, nid yw newid a datblygu'n dderbynol am unrhyw bris.

6.6 I'r perwyl hwn, rhaid i'r rheini sydd am gyflwyno datblygiadau a newid mawr i'r Ynys gydnabod pa mor bwysig yw'r pethau uchod a pha mor rheidiol yw parchu cymeriad unigryw a naws arbennig y lle. Mae cwmni Horizon Nuclear Power, yn ei Brif Adroddiad Ymgynghorol ar Wylfa Newydd (Mehefin 2018), er enghraifft, yn cydnabod a disgrifio Ynys Môn fel:-

- "Ile hynod, yng nghyd-destun Cymru a'r DU, oherwydd ei gosodiad a'i thirlun unigryw a'r cymeriad cymdeithasol cryf sydd wedi esblygu oherwydd anwahanrwydd yr Ynys o dir mawr Cymru"

- “mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn angor ar gyfer patrwm gwsg arog ygwahanol gymunedau. Mae'n ddolen ar gyfer cyswllt cymdeithasol sy'n rhedeg fel edau aur drwy bob agwedd ar fywyd yr Ynys”

ac fel rhywle

- “gyda thirlun a threftadaeth fywiog”

6.7 Wrth edrych tua'r dyfodol, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd, gyda'i gilydd, wedi rhoi pwyslais cryf ar (ynghyd â chyflwyno dyletswyddau statudol newydd i) hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae'r broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr Ynys, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r amcanion llesiant a ddisgrifir yn y Ddeddf newydd, bellach yn ganolog i athroniaeth a ffordd y Cyngor o weithio – ac yn anad dim wrth warchod, cadw a gwella cymeriad unigryw a Naws Arbennig yr Ynys.

6.8 Mae pwysigrwydd 'lle' a 'chreu lle' i sicrhau datblygu cynaliadwy a lles yng Nghymru hefyd yn ennill cryn fomentwm. Mae drafft ymgynghordol y 10fed rhifyn o Bolisi Cynllunio Cymru (PPW) yn blaenoriaethu 'creu lle' – dull aml-haen o fynd ati i gynllunio, dylunio a rheoli mannau cyhoeddus. Mae creu lle'n 'manteisio ar yr amrywiol asedau sydd gan gymuned leol, ar ei hysbrydoliaeth a'i photensial, gyda'r bwriad o greu datblygiadau sy'n hybu lles, iechyd a hapusrwydd pobl'. Mae 'lle', felly, yn ganolog i greu Mannau Cynaliadwy a chyflawni a darparu amcanion ehangach Deddf Llesiant 2015.

6.9 Drwy weithio i gydnabod a gwarchod cymeriad unigryw a naws arbennig iawn Ynys Môn, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cofleidio'r cysyniad o 'greu lle' fel sail ar gyfer darparu mannau cynaliadwy ond hefyd ar gyfer diogelu a gwella'r lles sydd gan bawb mewn golwg ar gyfer cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol ar yr Ynys.

# ATODIAD A Asesiad Lles Ynys Môn 2017

## Barn a blaenoriaethau'r Grwpiau Ffocws Ardal - tablau crynodeb

### I. Bro Aberffraw & Bro Rhosyr

Nodwch hyd at 3 pheth sy'n braf am fyw yn eich ardal chi

Sylwadau	Nifer
Lleoliad ac amgylchedd wledig a/neu arfordirol a chyfleus	48
Distawrwydd	19
Ysbryd cymunedol, cymdogion da a phobl lleol chyfeillgar	17
Cysylltiadau Trafnidiaeth e.e. Prif ffordd A55, Llwybrau cerdded,	9
Cyfleusterau lleol e.e. atyniadau, siopau, eglwysi, canolfannau cymunedol	9
Bywyd Gwyllt	6
Yr iaith a diwylliant Cymraeg	5
Lefelau trosedd yn isel, teimlo yn ddiogel	5
Ysgolion yn agos ac yn rhai da	2
Gofal Iechyd	1
Treftadaeth, hanes a diwylliant	1
Llygredd isel	1
Balchder i fyw yn yr ardal	1
Dim datblygiadau mawr	1
Agos i'r gwaith	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>126</b>

Nodwch hyd at 3 peth yn eich ardal sy'n hybu eich llesiant ac yn cyfrannu at ansawdd eich bywyd.

<b>Sylwadau</b>	<b>Nifer</b>
Amgylchedd Naturiol - Lleoliad ac amgylchedd wledig a/neu arfordirol cyfleus, tirwedd a golygfeydd	26
Mynediad at fannau cerdded, beicio, gweithgareddau awyr agored	13
Cymunedau Cymdeithasol - Cymdogion da, ysbryd cymunedol, cefnogi busnes a digwyddiadau a gweithgareddau lleol a phethau i wneud	12
Tawelwch	7
Bod yn agos at gyfleusterau, mwynderau lleol e.e. siopau, llyfrgell, gweithgareddau hamdden	6
Llygredd isel	5
Dosbarthiadau ffitrwydd a chlybiau	4
Gwasanaethau lechyd -Bod yn agos at feddygfeydd effeithlon, a mynediad at ofal deintyddol GIG	4
Lefel Trosedd Isel/Teimlo yn saff	2
Iaith a diwylliant Cymraeg	2
Costau byw a chyfleoedd gwaith	1
Agwedd bositif a hunan gynhaliaeth	1
Cynghorydd Lleol	1
Band eang cyflymach	1
Diogelwch ffyrdd – lleihau gyrru'n gyflym	1
Golau Stryd	1
Agos at gwaith	1
Traffig isel	1
Cysylltiadau trafnidiaeth – agos at yr A55	1
Capel	1
Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyfforddi pobl mewn swyddi yn ymwneud â byd ac amgylchedd naturiol	1
Ysgol yn y pentref	1
Lleoliad	1
Ffermio llai dwys na gweddill D.U.	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>95</b>

## 2. Aethwy & Seiriol

Nodwch hyd at 3 pheth sy'n braf am fyw yn eich ardal chi

Sylwadau	Nifer
Amgylchedd Naturiol - tirwedd a golygfeydd	36
Cysylltiadau Trafnidiaeth	17
Ysbryd cymunedol / cymdogion	16
Cyfleusterau lleol	14
Lleoliad Gwledig	11
Lefel Trosedd Isel/Teimlo yn saff	11
Distawrwydd	8
Yr iaith Gymraeg / Diwylliant Gymraeg	5
Dim datblygiadau tai	2
Cyfleoñ Gwaith	2
Prisiau tai	1
Treftadaeth - cestyll/adeiladau hynafol	1
Dim bygythiad llifogydd	1
Cyngor Tref gweithgar	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>126</b>

Nodwch hyd at 3 peth yn eich ardal sy'n hybu eich llesiant ac yn cyfrannu at ansawdd eich bywyd.

Sylwadau	Nifer
Mannau cerdded/Gweithgareddau awyr agored	28
Amgylchedd Naturiol - tirwedd a golygfeydd	18
Teulu a ffrindiau/cymdogion	9
Ysbryd cymunedol	6
Distawrwydd	5
Cysylltiadau trafnidiaeth	5
Agos i Ysbyty Gwynedd/meddygfeydd	4
Gweithgareddau cymdeithasol/cymunedol	4
Dosbarthiadau ffitrwydd	3
Agos i gyfleusterau	3
Ysgol dda	3
Tai o safon	2
Golau Stryd	2
Agos at gwaith	2
Clwb Hwylio	1
Lefel Trosedd Isel/Teimlo yn saff	1
Lleoliad	1
Cyngor Tref	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>98</b>

### 3. Lligwy & Twrcelyn

Nodwch hyd at 3 pheth sy'n braf am fyw yn eich ardal chi

Sylwadau	Nifer
Yr amgylchedd naturiol - tirwedd, traethau	42
Distawrwydd/Llonyddwch	12
Ysbryd cymunedol	11
Lefelau trosedd isel	9
Cyfleusterau ar gael yn lleol	8
Golygfeydd	7
Teulu/Ffrindiau/Cymdogion	7
Awyr iach	4
Mannau i gerdded	3
Strydoedd taclus a glan	3
Cysylltiadau trafnidiaeth	3
Dim traffig	2
Medru byw drwy'r Gymraeg	2
Mynediad at wasanaethau iechyd	2
Safon yr ysgol	2
Dim byd	1
Cyflwr da'r lonydd	1
Treftadaeth	1
Dim peilonau	1
Tai fforddiadwy	1
Gwyliau adar	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>123</b>

>>

&gt;&gt;

Nodwch hyd at 3 peth yn eich ardal sy'n hybu eich llesiant ac yn cyfrannu at ansawdd eich bywyd.

<b>Sylwadau</b>	<b>Nifer</b>
Amgylchedd naturiol/lleoliad	22
Mynediad at gyfleusterau	14
Awyr iach	9
Teulu/Ffrindiau/Cymdogion	8
Distawrwydd/Llonyddwch	7
Cymuned glos/ysbryd cymunedol	6
Lefelau troedd isel	5
Llefydd i gerdded	4
Gwella'r dref drwy fuddsoddi	4
Cyfleusterau hamdden	4
Ardal lân a thaclus	3
Gweithgareddau cymunedol/Amlwch AgeWell	3
ail agor y rheilffordd	1
Gwell cysylltiad i'r we/signal ffon	1
Fy ngardd	1
Treftadaeth ddiwydiannol	1
Gallu gyrru car	1
Y tywydd	1
Ardal saff i blant chwarae allan	1
Safon yr ysgol	1
Trafnidiaeth gyhoeddus	1
Bod mewn cyflogaeth	1
Peidio caniatáu mwy o felinau gwynt	1
Rheoli parcio	1
Addysg Oedolion	1
Costau byw isel	1
Amrywiaeth rhywogaethau adar	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>104</b>

## 4. Canolbarth Môn ac Ardal Llifon

Nodwch hyd at 3 pheth sy'n braf am fyw yn eich ardal chi

Sylwadau	Nifer
Yr amgylchedd naturiol / golygfeydd	28
Ysbryd cymunedol / digwyddiadau yn y gymuned	23
Cyfleusterau ar gael - siopau / tafarndai	17
Llonyddwch / Distawrwydd	16
Cael defnyddio'r iaith Gymraeg / Cymreictod yr ardal	12
Lleoliad gwledig	11
Teimlo yn saff / Lefelau trosedd isel	11
Teulu / Ffrindiau / Cymdogion	9
Cysylltiadau trafnidiaeth	8
Yr ysgol leol	4
Awyr iach	3
Dim byd da	2
Llefydd i addoli	1
Strydoedd taclus / blodau	1
Gweithio yn yr ardal	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>147</b>

Nodwch hyd at 3 peth yn eich ardal sy'n hybu eich llesiant ac yn cyfrannu at ansawdd eich bywyd.

Sylwadau	Nifer
Ardal wledig - digon o lefydd i gerdded a chwarae	38
Ysbryd cymunedol/Digwyddiadau Cymunedol	16
Teulu a ffrindiau	9
Awyr iach	8
Canolfan Hamdden	7
Diwylliant Gymraeg	5
Safon yr addysg	4
Lefel trosedd isel	4
Distawrwydd / Llonyddwch	3
Agos i gwaith	3
Y siop leol	2
Canolfan Gymunedol	2
Canolfan Cyngor ar Bopeth	2
Digon o gyfleusterau	2
Mwy o dai cymdeithasol	1
Ysgol Gymraeg	1
Pensiwn	1
Mynediad at feddygon teulu	1
Trafnidiaeth gyhoeddus	1
Balans bywyd-gwaith	1
Yr haf	1
Strydoedd taclus	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>113</b>

## 5. Talybolion

Nodwch hyd at 3 pheth sy'n braf am fyw yn eich ardal chi

<b>Sylwadau</b>	<b>Nifer</b>
Amgylchedd Naturiol – Lleoliad a golygfeydd hardd, amgylchedd wledig a/neu arfordirol	16
Y teimlad cymunedol, cymdogion da a phobl leol gyfeillgar	13
Tawelwch	7
Teimlo'n ddiogel, lefelau trosedd isel	4
Awyr iach	3
Cyfleusterau fel siopau, tafarndai lleol, digwyddiadau cymunedol	3
Llwybrau cyhoeddus	1
Diwylliant Cymreig	1
Ysgolion da	1
Traffig isel	1
Natur	1
Ffordd arafach o fyw	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>52</b>

Nodwch hyd at 3 peth yn eich ardal sy'n hybu eich llesiant ac yn cyfrannu at ansawdd eich bywyd.

<b>Sylwadau</b>	<b>Nifer</b>
Lleoliad tawel, unigedd a hardd	13
Gallu cerdded yn yr ardal, llwybrau cerdded gwledig	8
Mwy o gyfleusterau, gweithgareddau, clybiau cadw'n iach	7
Digwyddiadau Cymunedol	6
Lefelau trosedd isel, teimlo'n ddiogel	6
Awyr iach, diffyg llygredd	2
Gallu gofyn i bobl yn y gymuned am gefnogaeth	1
Mwy o agwedd cynhwysol tuag at bobl Saesneg	1
Bandeang a signal gwell	1
Gwasanaeth ambiwlans, a meddygfa leol da	1
Gwell trafnidiaeth gyhoeddus	1
Ysgol dda	1
Lefel isel o draffig	1
Papur newydd	1
Costau byw isel, dim cyfleusterau i'w wario arno	1
Rhyddid i symud	1
Wedi byw yn yr ardal erioed	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>53</b>

## 6. Caergybi & Ynys Cybi

Nodwch hyd at 3 pheth sy'n braf am fyw yn eich ardal chi

Sylwadau	Nifer
Traethau a Glan y Môr	15
Distawrwydd a llonyddwch	11
Cefn Gwlad / Llwybrau cerdded	11
Teulu / Ffrindiau / Cymdogion	9
Ysbryd cymunedol	8
Golygfeydd hardd	4
Canolfan Gelfyddydol	3
Lle saff i fyw	3
Ansawdd yr aer	2
Agos at gwaith	1
Llefydd Bwyta	1
Ymwelwyr	1
Digon i'w wneud	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>70</b>


Nodwch hyd at 3 peth yn eich ardal sy'n hybu eich llesiant ac yn cyfrannu at ansawdd eich bywyd.

Sylwadau	Nifer
Llefydd i gerdded - parciau/lan y môr	12
Ysbryd cymunedol	6
Cyfleusterau hamdden/clwb golff	5
Y Ganolfan Gelfyddydol	5
Llonyddwch / Distawrwydd	5
Awyr iach	4
Byw wrth ymyl y môr	2
Edrychiad strydoedd – blodau wedi eu plannu	1
Cysylltiadau teithio	1
Diwylliant a'r iaith Gymraeg	1
Teimlo yn saff	1
Gwasanaeth casglu gwastraff/glanhau strydoedd gwych	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>44</b>

# ATODIAD B

## Ardaloedd Cymeriad Tirlun

Ardaloedd cymeriad tirlun nodweddol o Ynys Môn – o Ddiweddariad Strategaeth Tirlun Cyngor Môn 2011 a delweddau o wahanol fathau o dirlun ar draws yr Ynys.



## Ardal 1 - Mynydd Caergybi



Abraham's Bosom ac Ynys Lawd

## Ardal 5 - Gogledd-Orllewin Ynys Môn



Melin Llynnon a Mynydd Mechell

## Ardal 6 - Amlwch a'i hamgylchoedd



Amgylchoedd Amlwch o Fynydd Eilian



Porthladd Amlwch

## Ardal 9 - Traeth Coch



Traeth Coch a Llanddona

## Ardal 11 - Rhan ddwyreiniol Afon Menai



Biwmares



Ardal Pen-y-bont

## Ardal 14 - Niwbwrch



Twyni tywod Niwbwrch



Pwynt Abermenai, Coedwig Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn

# ATODIAD C

## Tweet of the Day - BBC Radio 4

Darlledwyd gyntaf am 5.55am ar Ddydd Iau 22 Mawrth 2018.

### Yr Hebog Tramor



#### TRAWSGRIFIAD (AR FFURF CYFIEITHIAD)

“Roedd gennym athro ysgol gynradd a ddechreuodd glwb adar i blant.

Rwy'n cofio mynd i lawr y grisiau yng ngleudy Ynys Lawd ar Ynys Môn.

Roedd nythfa anferth o adar môr yn nythu yno – mynd i'w gweld nhw oed-den ni.

Yn sydyn, clywsom y gri 'ma.

Aeth pob aderyn arall yn holol ddistaw.

Wrth edrych i'r awyr gwelsom y peth tywyll 'ma, fel siâp cryman, yn hedfan mewn cylchoedd o gwmpas wyneb y clogwyn.

Ac oherwydd bod hebogau tramor mor brin, roedd yn rhaid i mi weld un eto, ac eto – dysgais y grefft o wylia'r hebog tramor yn dda iawn – mae'n cynhyrifu rhywun yn weledol, yn glywedol, yn rhoi gwefr i rywun – chwilio am y teimlad hwnnw yr oeddwn o hyd wedyn.

Rwy'n hedfan fy hebog tramor dof fy hun bellach.

Ac mae'n debyg y gallaf olrhain holl lwybr fy ngyrfa – milfeddyg sy'n arbenigo mewn adar ydw i'r dyddiau hyn – yn ôl i'r ennyd gwefreiddiol hwnnw ar risiau goleudy Ynys Lawd ar Ynys Môn.”

**Richard Jones**  
**Milfeddyg Adar**  
**Rudeheath, Northwich, Sir Gaer.**



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



[www.ynysmon.gov.uk](http://www.ynysmon.gov.uk)